

Safleoedd Cynhwysiant

Cyfranogiad Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn Sector y Celfyddydau yng Nghymru

Adroddiad gan
Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani

Comisiynwyd gan
Cyngor Celfyddydau Cymru
2022

Lluniwyd gan
Dr Daniel Baker PhD RCA

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Y Cyd-destun	4
Y Dull	7
Cyfyngiadau	10
Termau	11
Canfyddiadau	13
Casgliadau	17
Argymhellion	20
Map Ffordd	23
Adnoddau	26
Geiriau Artistiaid	31
Cydnabyddiaethau	33
Atodiad 1	35
Atodiad 2	43
Atodiad 3	57

Safleoedd Cynhwysiant

Cyfranogiad Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn Sector y Celfyddydau yng Nghymru

Cynhaliwyd y prosiect ymchwil Safleoedd Cynhwysiant gan Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani ar gais Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd wedi comisiynu'r astudiaeth hon gyda'r prif nod o feithrin dirnadaeth o lefelau cyfranogiad a chynhwysiant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn sector y celfyddydau yng Nghymru. Nod yr ymchwil yw optimeiddio cyfleodd ar gyfer ymgysylltu a nodi camau pellach y gellir eu cymryd i hyrwyddo cynwysoldeb a chynhwysiant cynyddol ar gyfer cynulleidfaoedd, artistiaid a gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae'r prosiect yn cynnwys tair rhan:

- *Yr Adroddiad Safleoedd Cynhwysiant*
- *Celfyddydau Romani a Theithwyr o Fysantiwm i Brydain*; cyflwyniad ar-lein i hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy'r celfyddydau. Lluniwyd gan Dr Adrian Marsh PhD yn ategiad i'r Adroddiad ar Safleoedd Cynhwysiant.
- *Lleisiau Artistiaid*: adnodd fideo a gynhyrchwyd yn ategiad i'r Adroddiad ar Safleoedd Cynhwysiant er mwyn galluogi mudiadau celfyddydol a'r cyhoedd i gynefino ag artistiaid o dras Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a'u gwaith. Mae'r adnodd hwn hefyd yn rhoi cyfle i artistiaid rannu eu profiad o gynhwysiant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y celfyddydau.

Prif nod yr astudiaeth yw hybu cydraddoldeb i Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'u cyfranogiad, ledled sector y celfyddydau yng Nghymru, a hynny trwy hyrwyddo dysgu a meithrin ymwybyddiaeth o gelfyddyd a diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn sector y celfyddydau, a hefyd ymhlith rhwydweithiau celfyddyd gyfoes a chymunedau ehangach.

Lluniwyd yr adroddiad hwn, ynghyd â'r adnoddau ategol, i gynnig gwybodaeth, arweiniad a chynghor i sector y celfyddydau mewn perthynas ag ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol creadigol sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac i helpu i gynyddu proffil cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u diwylliant er mwyn sicrhau'r cwmpas gorau posibl o ran ymgysylltu.

Nod y prosiect Safleoedd Cynhwysiant yw cynyddu gwybodaeth am gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau celfyddydol mewn perthynas â chwestiynau nas aethpwyd i'r afael â nhw, i raddau helaeth, yn sector y celfyddydau na ledled rhwydweithiau celfyddydol cyfoes. Mae ehangu'r ddadl ynghylch diffyg cynrychiolaeth ddigonol o ymarfer artistig cyfoes Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn sector y celfyddydau hefyd yn cynnig y posibilrwydd o feithrin gwrthnaratifau cadarnhaol yn lle'r rhai a ganfyddir yn gyffredinol, gan felly hwyluso cynhwysiant ymhellach ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn disgwrs cymdeithasol a diwylliannol ehangach.

Bydd yr wybodaeth a gynhyrchir gan ein hymchwil yn cael ei defnyddio i helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled sector y celfyddydau yng Nghymru. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnig model y gellir seilio ymchwil bellach arno ledled y Deyrnas Unedig yn gyffredinol a thu hwnt. Mae'r astudiaeth hon hefyd yn anelu at gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyflawni Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030 trwy ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Y Cyd-destun

Nod y prosiect Safleoedd Cynhwysiant yw mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch cynhwysiant, cyfranogiad a chynrychiolaeth ymhlith Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn sector y celfyddydau yng Nghymru. Mae'r astudiaethau cynharach a amlinellir isod wedi mynd i'r afael yn flaenorol â materion yn ymwneud â rhai o'r cwestiynau y mae ein hymchwil gyfredol wedi'u harchwilio. Mae'r testun mewn teip italig yn addasiad o ddyfyniad o'r adroddiadau gwreiddiol.

Tu Hwnt i'r Stereoteipiau: Adolygiad o Sipsiwn/Roma/Theithwyr a'r Celfyddydau yng Nghymru

Comisiynwyd gan Cyngor Celfyddydau Cymru 2012

<http://romaniarts.co.uk/wp-content/uploads/2012/12/Beyond-the-Stereotypes.pdf>

'Nod yr adolygiad hwn felly yw adolygu 'materion' yn ymwneud â Sipsiwn/Roma/Theithwyr (SRT) yn unol â'r sefyllfa gyfredol yng Nghymru, a hynny trwy ddarparu ychydig o gyd-destun cefndirol ar Sipsiwn a Roma, ac asesu'r manau hynny lle mae cysylltiadau â'r Celfyddydau yn bodoli ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn gosod Sipsiwn Cymru yn eu cyd-destun hanesyddol, gan gyfeirio'n benodol at gerddoriaeth a'r cysylltiadau rhwng Sipsiwn Cymreig a cherddoriaeth draddodiadol Gymreig. Bydd hyd a lled cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer prosiectau SRT yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cael ei adolygu i asesu a yw amcanion Cyngor y Celfyddydau yn cael eu bodloni ac anghenion cymunedau SRT yn cael eu diwallu. Y gobaith yw y bydd yr wybodaeth mor glir â phosibl at ddefnydd aseswyr grantiau, gan eu galluogi i symud y tu hwnt i'r stereoteipiau sy'n achosi problemau i gymunedau SRT.'

Tudalen (3)

Mae'r ddogfen yn cyflwyno arolwg helaeth o hanes presenoldeb Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru, yn ogystal â'r cyfraniad celfyddydol a wneir gan y cymunedau hynny ym maes cerddoriaeth a pherfformio. Mae'r canlyniadau a'r argymhellion yn canolbwyntio'n bennaf ar yr amddifadedd cymdeithasol a brofir gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r angen sylfaenol i fynd i'r afael â materion o'r fath. Trafodir y celfyddydau mewn perthynas â manteisio ar ddiddordeb newydd yn y celfyddydau Roma ar y pryd, a ysgogwyd gan y Pafiliwn Roma cyntaf yn La Biennale di Venezia yn 2007. Gwneir pwyntiau mewn perthynas â'r modd y gallai'r diddordeb a oedd yn datblygu annog ceisiadau am grantiau a dyfarniadau a fedrai gynorthwyo cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o ran manteision economaidd a diwylliannol.

Er bod y pwyslais economaidd yn bwysig, yn y dull hwn ymddengys nad oes yna fawr ddim sy'n ymwneud â cheisio rhagoriaeth ym maes ymarfer celfyddydol cyfoes fel nod ynddo'i hun, neu o ran ei fod yn allweddol mewn dadleuon ehangach ynghylch sicrhau cydraddoldeb ar gyfer artistiaid sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a, thrwy gysylltiad, y cymunedau y maent yn deillio ohonynt.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys gweithio'n agosach gyda sefydliadau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn broceru perthnasoedd cyllido â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a gwella gwybodaeth ymhlith staff Cyngor Celfyddydau Cymru.

Yr argraff gyffredinol yw bod hon yn ddogfen ddefnyddiol o ran paratoi'r tir ar gyfer trafod y pwnc. Cydnabyddir ei chyfyngiadau, o ran bod yr ymchwil wedi cael ei chynnal gan unigolion nad ydynt yn rhan o gymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Mae'r cynnwys artistig yn canolbwyntio ar gelf a chreffft â photensial i gynhyrchu incwm er mwyn galluogi'r rhai sy'n cael grantiau i ehangu cyfleoedd economaidd; y syniad oedd y byddai hyn o fudd uniongyrchol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Ymddengys nad oes llawer o sylw yn cael ei roi i ddatblygu arferion celfyddydol cyfoes gan artistiaid sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a hynny er gwaethaf y cyfeiriad cynharach at y diddordeb newydd yn y ffenomen ledled Ewrop.

Ehangu Ymgysylltiad

Tendr ar gyfer Amgueddfa Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru

Undeb Gwrth-hiliol Celfyddydau Cymru: Cam 3 – yr Adroddiad Terfynol

Comisiynwyd gan Cyngor Celfyddydau Cymru 2012 ac Amgueddfa Cymru 2020

<https://arts.wales/cy/resources/welsh-arts-anti-racist-union-report>

Crynodeb o'r Bwriadau (addasiad): *'Mae Undeb Gwrth-hiliol Celfyddydau Cymru yn grŵp o artistiaid a gweithwyr celf o liw. Roeddem wedi gwneud cais am y tendr ymgysylltu gyda'r cymhelliant i wneud pethau mewn ffordd wahanol gan ein bod yn ymwybodol o natur arwynebol, echdynol, yn ein barn ni, ymgynghoriadau â'n cymunedau yn y gorffennol, a'r diffyg ymddiriedaeth y mae hyn yn ei gynhyrchu (a'i atgynhyrchu) pan na fydd prosiectau ymgysylltu, dro ar ôl tro, yn creu canlyniadau pendant. Roedd atgyfodiad y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn 2020, gyda'r anghyfiawnder yn cael ei amlygu fwy fyth gan bandemig COVID-19, a'r datganiadau cymorth a ddilynodd gan CCC ac NMW-AC, yn ogystal â sefydliadau celfyddydol eraill yng Nghymru, wedi rhoi gobaith a brys newydd o ran hyd a lled y newid yr oedd ei angen i greu sector teg i bawb. Gyda hyn mewn golwg, nod y tendr yw osgoi ailadrodd llafur a thrawma prosesau ymgynghori. Roeddem yn rhagweld y byddai ein hadroddiad ar y prosiect a'n rhestr o ofynion - a lywiwyd trwy gynnal ymgynghoriadau manwl ag artistiaid, gweithwyr celf a chynulleidfaoedd, ac a luniwyd o amgylch methodoleg gofal - yn mynd at wraidd y camau gweithredu sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl dduon a phobl o liw nad ydynt yn dduon yn eu hwynebu wrth gyrchu'r celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru, ac, yn ei dro, wrth ymgysylltu ag CCC ac NMW-AC. Trwy gydol y prosiect, roeddem yn ceisio peidio ag atgynhyrchu'r ymgynghoriadau ailadroddus a niweidiol yr oedd pobl eisoes wedi cael llond bol ohonynt, ond yn edrych tuag at atebion radical y gellid eu gweithredu i sicrhau newid systemig.'* (Tudalen 5)

Comisiynwyd y gwaith ymchwil hwn ym mis Mehefin 2020 gan Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a hynny'n dilyn tendr a hysbysebwyd i gynnal cyfres o sgysiaid ymchwil manwl. Y nod oedd ehangu'r ymgysylltiad â chymunedau nad yw'r cyrff comisiynu, dro ar ôl tro, yn llwyddo i ennyn eu diddordeb yn eu gwaith. O blith y 34 o gyflwyniadau, penodwyd tri sefydliad i gynnal astudiaethau, gan gynnwys Undeb Gwrth-hiliol Celfyddydau Cymru.

Trwy gyfweiliadau manwl ag artistiaid, gweithwyr celf a chynulleidfaoedd a oedd yn uniaethu fel pobl dduon neu bobl o liw nad ydynt yn dduon, ynghyd â dadansoddiadau o adroddiadau ac ystadegau a ddarparwyd gan CCC ac NMW-AC, nod yr ymchwil hon oedd nodi lleisiau a fethwyd mewn ymchwil flaenorol i gynhwysiant. Roedd y canfyddiadau a'r argymhellion yn cynnwys: ● Cynyddu nifer y bobl dduon a phobl o liw nad ydynt yn dduon sy'n gweithio yn Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru ● Cynyddu nifer cyffredinol y bobl dduon a'r bobl o liw nad ydynt yn dduon mewn sefydliadau celfyddydol ● Gosod cwotâu a chosbi'r (sefydliadau portffolio) rheiny nad oeddent yn eu bodloni ● Cynyddu nifer y bobl dduon a'r bobl o liw nad ydynt yn dduon sydd mewn adrannau Adnoddau Dynol. (t.22)

Roedd yr ymchwil hon yn amserol am iddi gael ei chynnal yn fuan ar ôl i'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys ymddangos yn 2020. Yn ogystal ag amlygu nifer o ffactorau pwysig sydd wedi cyfrannu at fethiannau o ran cynhwysiant yng ngweithgareddau CCC ac NMW-AC, mae hyd yn oed bodolaeth yr ymchwil hefyd yn nodi brys sefydliadau o'r fath wrth iddynt anelu at fynd i'r afael â'r mater pwysig o ymgysylltiad ac amrywiaeth ymhlith eu cynulleidfaoedd, eu hartistiaid a'u gweithluedd.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth yn sector y celfyddydau a diwylliant yn Lloegr

Comisiynwyd gan Cyngor Celfyddydau Lloegr 2014

<https://www.artscouncil.org.uk/publication/equality-and-diversity-within-arts-and-cultural-sector-england>

'Mae'r adroddiad hwn yn sefydlu sylfaen o ddata, tystiolaeth ac ymchwil ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled sector y celfyddydau a diwylliant. Mae'n cynnig cipolwg ar dueddiadau a heriau cyfredol ar draws y pedair thema allweddol: cynulleidfaoedd y celfyddydau a diwylliant, cyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant, y gweithlu, a mynediad at gyllid. Mae'r ymchwil yn ystyried y sail dystiolaeth ledled pob un o'r grwpiau a ddiogelir gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Fodd bynnag, mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn ymrwymedig i chwalu rhwystrau economaidd-gymdeithasol ac addysgol, felly rhoddwyd ystyriaeth i'r rhain yn ogystal.' (Tudalen 1)

Roedd y casgliad hwn o 146 o astudiaethau yn archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled nifer o grwpiau gwarchoddedig, yn cynnwys anabled, hil, oedran a rhyw/rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd a/neu gred. Yn ei gasgliadau, mae'r adroddiad yn amlygu natur gydgysylltiedig dylanwadau, ysgogwyr, cymhellion a rhwystrau o ran hwyluso cyfranogiad ac ymgysylltiad grwpiau gwarchoddedig ledled sector y celfyddydau yn Lloegr. Wrth adrodd am y rhwystrau i gyfranogiad a all atal cynhwysiant yn sector y celfyddydau yn achos grwpiau gwarchoddedig, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfranogwr arfaethedig fel y prif asiant o ran pennu ei botensial ei hun i gymryd rhan, gan nodi bod y rhan fwyaf o rwystrau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol sector y celfyddydau a diwylliant. Roedd y rhwystrau a enwyd yn cynnwys rhwystrau ymarferol (h.y. cost), seicolegol (h.y. cefndir cymdeithasol) a sefydliadol (h.y. lefel yr ymddiriedaeth mewn gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus), gyda phob un ohonynt, yn ddiamau, yn dylanwadu ar ddewisiadau unigolion o ran pa un a ydynt am gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad penodol. Ymddengys bod rhywbeth yn eisiau o sail resymegol y ddadl hon, sef y broses o gwestiynu rôl sector y celfyddydau ynghylch cynnig cynnwys a all annog y cyfranogwr arfaethedig i gymryd rhan. Os amrywiaeth y cyfranogiad yw'r nod, yna rhaid bod amrywiaeth y cynnyrch yn rhagofyniad.

Yng ngoleuni'r tri phrosiect ymchwil a amlinellir uchod, ymddengys ei bod yn amserol cynnal math gwahanol o astudiaethau sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â chynhwysiant ar y lefel uchaf yn sector y celfyddydau ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau o blith Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r cymunedau hynny, ond sydd hefyd yn gofyn i'r porthmyn, sef y sefydliadau celfyddydol eu hunain, archwilio eu rôl eu hunain o ran darparu sector celfyddydau sy'n wirioneddol gynhwysol.

Y Dull

Lluniwyd holiadur y Safleoedd Cynhwysiant mewn ymgynghoriad â nifer o arbenigwyr, gyda rhai ohonynt o dras Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Ymgynghorwyd â Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd, sef y corff comisiynu, trwy gydol y broses ymchwil.

Lluniwyd y cwestiynau i gasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r lefelau **cofnodedig** o ddata ar gyfer y chwe chategori canlynol yn ystod y pum mlynedd flaenorol:

Lefelau cofnodedig o gyfranogiad ac ymgysylltiad rhwng sefydliadau celfyddydol a chynulleidfaoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Lefelau cofnodedig o gyfranogiad ac ymgysylltiad rhwng sefydliadau celfyddydol a gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Lefelau cofnodedig o gyfranogiad ac ymgysylltiad rhwng sefydliadau celfyddydol a staff a gwirfoddolwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Lefelau cofnodedig o'r gyllideb a wariwyd ar gynnwys perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Y ganran gofnodedig o ddigwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Lefelau cofnodedig o hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Anfonodd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yr holiaduron Safleoedd Cynhwysiant trwy e-bost at ei 67 o gleientiaid sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru (PCC).

Anfonwyd yr holiadur Safleoedd Cynhwysiant terfynol gan dîm cyfathrebu Cyngor Celfyddydau Cymru at ei 67 o gleientiaid sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru. Cafodd dolenni i'r holiadur eu cynnwys yn newyddlen cyfleoedd Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd¹. Anfonwyd yr holiadur, trwy e-bost, at y 67 o gleientiaid sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru ar dair adeg wahanol yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2022.

Roedd yn ofynnol dychwelyd yr holiaduron, wedi'u llenwi, i gyfeiriad e-bost Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, yn unol â'r cais ar y ddogfen. Bu i nifer o'r ymatebwyr ddychwelyd yr holiaduron, wedi'u llenwi, at dîm cyfathrebu Cyngor Celfyddydau Cymru, a'u hanfonodd ymlaen wedyn at Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani.

Daeth cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u llenwi i law Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, a hynny o blith y 67 o gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru yr anfonwyd y ddogfen atynt ar dri achlysur gwahanol. Mae'r rhestr o gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru ar y dudalen nesaf yn dangos y sefydliadau a ymatebodd mewn testun trwm. Cafodd Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani hefyd gyfanswm o bedwar holiadur wedi'u llenwi gan sefydliadau nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru.

¹ <https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/arolwg-safleoedd-cynhwysiant>

Yn dilyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno holiaduron wedi'u llenwi, cafodd yr wybodaeth a ddeilliodd ohonynt ei choladu a'i dadansoddi i lunio'r canfyddiadau ar gyfer yr adroddiad ar Safleoedd Cynhwysiant.

Er i'r rhan fwyaf o'r ymatebion ddod i law gan 20 o'r 67 o gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru, mae'r adroddiad hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r ymatebion a ddaeth i law gan y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru.

Cafodd yr ymatebion gan y ddwy set o sefydliadau eu dadansoddi ar wahân cyn cael eu cyfuno i lunio ein canfyddiadau cyffredinol.

Mae'r setiau data gwahanol hyn yn amlwg trwy gydol yr astudiaeth, er eglurder, a gellir gweld manylion ar eu cyfer yn atodiadau 1, 2 a 3.

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru, gyda'r sefydliadau a ymatebodd mewn testun trwm

**Canolfan Celfyddydau
Aberystwyth**

Arad Goch

Artes Mundi

Artis Community

Arts Care Gofal Celf

Arts Connection – Cyswllt
Celf

Ballet Cymru

Cerddorfa Genedlaethol
Gymreig y BBC

Sefydliad y Glowyr Coed-
duon

Canolfan Gerdd William
Mathias

Chapter

**Cerddoriaeth Gymunedol
Cymru**

Cwmni'r Frân Wen

Dawns i Bawb

**Celfyddydau Anabledd
Cymru**

Ffilm Cymru Wales

Ffotogallery

g39

Galeri

Oriel Gelf Glynn Vivian

Hafren

Head 4 Arts

Theatr Hijinx

Impelo

Jukebox Collective

Llenyddiaeth Cymru

Live Music Now Wales

Canolfan Celfyddydau
Llantarnam Grange

Opera Canolbarth Cymru

Oriel Mission

Mostyn

Music Theatre Wales

Cwmni Dawns Cenedlaethol
Cymru

National Theatre Wales

**Celfyddydau Cenedlaethol
Ieuenticid Cymru**

NEW Dance

NoFit State

Oriel Davies Gallery

Oriel Myrddin

Peak

**Canolfan Celfyddydau
Pontardawe**

Celfyddydau Pontio

Theatrau Rhondda Cynon
Taf

Rubicon Dance

Canolfan Grefft Rhuthun

Sherman Cymru

Sinfonia Cymru

Taliesin

Tanio

**Theatr Glan yr Afon,
Casnewydd**

**Y Neuadd Les,
Ystradgynlais**

Theatr Bara Caws

Theatr Brycheiniog

Theatr Clwyd

Theatr Felin-fach

Theatr Genedlaethol Cymru

Theatr Iolo

Theatr Mwldan

Theatr na n'Óg

Cwmni Theatr y Torch
trac

Tŷ Cerdd

Canolfan Ucheldre

Valleys Kids

Volcano

Canolfan Mileniwm Cymru

Opera Cenedlaethol Cymru

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru mewn testun trwm

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

CBS Rhondda Cynon Taf CBC

Mwldan

Tŷ Pawb

Cyfyngiadau

Mae casglu gwybodaeth mewn perthynas â chanrannau ethnigrwydd wedi bod yn broblem gan nad yw'r rhan fwyaf o'r lleoliadau a ymatebodd yn cofnodi'r wybodaeth hon gan aelodau o'r gynulleidfa na'r gweithwyr proffesiynol hynny yn y celfyddydau sy'n cyflwyno gwaith mewn arddangosfa neu drwy berfformio. Amlygwyd hyn gan gleientiaid yn benodol mewn perthynas â mesur cynulleidfaoedd mewn digwyddiadau di-docyn. Nodwyd hyn hefyd gan nifer o sefydliadau nad ydynt wedi'u lleoli mewn lleoliad ac sy'n dibynnu ar leoliadau i gael gwybodaeth o'r fath na chaiff ei chasglu'n aml, a hynny unwaith eto oherwydd anhawster mesur cynulleidfaoedd mewn digwyddiadau di-docyn. O ganlyniad, yn absenoldeb system gyffredinol ddibynadwy ar gyfer monitro, efallai na fydd rhywfaint o'r data canrannau a gafwyd mewn ymateb i rai o'r cwestiynau meintiol yn ddibynadwy. Er gwaethaf hyn, mae gwneud ceisiadau o'r fath am wybodaeth yn rhoi cyfle i ni nodi cyfyngiadau'r broses bresennol o fonitro amrywiaeth ar bob lefel yn sector y celfyddydau.

Teimlai un ymatebydd ei fod yn gallu defnyddio'r holiadur yn gyfle i gyfleu gwybodaeth am achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol a oedd wedi digwydd, nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'i sefydliad, a hynny er gwaetha'r ffaith nad oedd yr un o'r cwestiynau yn ymwneud â phynciau o'r fath. Byddai manylion fel hyn fel arfer yn rhai ar gyfer sylw'r asiantaethau perthnasol, ac yn annhebygol o gael eu cynnwys mewn ymatebion i holiadur ynghylch cynhwysiant yn sector y celfyddydau, yn enwedig pe byddent yn berthnasol i unrhyw leiafrif ethnig arall. Eto, mae hyn yn rhoi'r cyfle i drafod mater ymylol; yn yr achos hwn, y disgwyliad, y deuir ar ei draws yn aml, fod materion sy'n ymwneud â rheolaeth gymdeithasol a throseddoldeb yn rhan o gylch gwaith sector y celfyddydau.

Termau a Chyfrifiadau

Canrannau

Cyfrifwyd y canrannau trwy adio unrhyw ganrannau uwch na 0% a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr, ac yna rannu'r cyfanswm â nifer yr ymatebwyr a gyflwynodd y ffigurau hyn.

Er enghraifft, pe byddai dau ymatebwr wedi cyflwyno canrannau positif, yna byddai swm y ffigurau hyn yn cael ei rannu â 2 i roi canran gyfartalog ar gyfer y ddau ymatebydd. Er mwyn cael canran ar gyfer yr 20 o Gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru, byddai'r ffigur hwn wedyn yn cael ei rannu ag 20, fel isod.

$$5\% + 1.5\% \div 2 = 3.25\%$$

$$3.25\% \div 20 = 0.16\%$$

Er mwyn pennu gwerth canrannol ar draws ein hastudiaeth gyfan, rhannwyd y ganran gyfartalog ar gyfer unrhyw werthoedd positif â'n 20 o Gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru, ynghyd â'n pedwar Cleient nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru, sef cyfanswm o 24 o ymatebwyr. Roedd hyn yn rhoi cyfanswm y gwerth canrannol ar draws yr astudiaeth, fel isod. (Yn ein hastudiaeth, roedd y gwerth canrannol ar gyfer ein Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru yn 0% ar gyfer pob cwestiwn.)

$$3.25\% \div 24 = 0.14\%$$

Categoriâu

Cafodd y categorïau yr oeddem wedi dewis eu defnyddio er mwyn nodi patrymau, tueddiadau a dewisiadau yn yr astudiaeth eu llywio gan gynnwys ysgrifenedig yr ymatebion a ddaeth i law yn ateb i'r cwestiynau. Lluniwyd y categorïau hyn gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion ein hymatebwyr yn fan cychwyn uniongyrchol pan ymddangosai eu bod yn cynrychioli maes bwriad neu weithgaredd penodol. Mae'r categorïau a ddefnyddiwyd gennym ledled yr astudiaeth yn cael eu rhestru isod. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hunanesboniadol a gellir mynd i'r afael â nhw trwy amryw o lwybrau; trafodir rhai i'r llwybrau hyn yn ddiweddarach yr adroddiad hwn. Yr eithriad, efallai, yw'r categori 'natur agored oddefol', y bwriedir iddo nodweddu ymatebion lle mae'r ateb yn awgrymu nad oes angen mynd ati i newid gweithrediadau presennol sefydliad a bod eu dull gweithredu cyfredol wedi'i gynllunio i fod yn agored i bawb. Profodd y cysyniad o dargedu yn arwyddocaol yn yr astudiaeth ledled amrywiaeth o feysydd, fel y gwelir yn y ffyrdd niferus y mae'r syniad wedi'i gynnwys yn y rhestr isod, sydd yn nhrefn yr wyddor.

Ceisio arweiniad a chymorth

Cyfleoedd targededig

Cyllid targededig

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned

Dulliau codi arian targededig

Hyfforddiant targededig

Llunio rhaglenni targededig

Marchnata targededig

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny

Mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu

Natur agored oddefol

Recriwtio targededig

Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Cwestiynau

Roedd yr holiadur Safleoedd Cynhwysiant yn cynnwys yr 13 o gwestiynau canlynol

Cynulleidfaoedd

Cwestiwn 1: *Pa ganran o aelodau eich cynulleidfa a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cwestiwn 2: *Sut y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eich lleoliad sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?*

Artistiaid, Perfformwyr ac Ymarferwyr

Cwestiwn 3: *Pa ganran o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda'ch sefydliad a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cwestiwn 4: *Sut y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?*

Aelodau Staff a Gwirfoddolwyr

Cwestiwn 5: *Pa ganran o'ch aelodau staff a'ch gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cwestiwn 6: *Yn rhan o'ch proses recriwtio, sut y gellid cynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?*

Llunio rhaglenni

Cwestiwn 7: *Pa ganran o ddigwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhaliwyd gan eich sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cwestiwn 8: *Sut y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?*

Y Gyllideb

Cwestiwn 9: *Pa ganran o'ch cyllideb a wariwyd ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cwestiwn 10: *Beth a allai annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?*

Hyfforddiant a Chymorth

Cwestiwn 11: *Pa ganran o'ch cyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf a wariwyd ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?*

Cwestiwn 12: *Sut y gellid cynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eich staff a'ch gwirfoddolwyr?*

Gwybodaeth Ategol

Cwestiwn 13: *Mae croeso i chi ychwanegu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn ddefnyddiol yn eich barn chi.*

Canfyddiadau

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos crynodeb cyffredinol o ganfyddiadau'r holiadur Safleoedd Cynhwysiant.

Mae data a dadansoddiad mwy manwl i'w gweld yn atodiadau 1 i 3, sy'n cynnwys cyfrifiadau manwl a chrynodebau o adroddiadau.

Mae enwau'r sefydliadau wedi'u dileu o bob ymateb er mwyn cynnal anhysbysrwydd.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Niferoedd

Mae'r canfyddiadau isod yn ymwneud â chwestiynau 1, 3, 5, 7, 9 ac 11, sy'n cwmpasu data meintiol mewn perthynas â chanrannau **a gofnodwyd** gan bob un o'r 24 o sefydliadau a ymatebodd i'r holiadur Safleoedd Cynhwysiant. Mae'r nifer hwn yn cynnwys 20 o Gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru a phedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru. Gan na chofnodwyd unrhyw ganran gan yr un o'r pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru, cofnodir un ganran gyffredinol isod mewn perthynas â phob cwestiwn.

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, y ganran gyffredinol o **aelodau'r gynulleidfa** a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

0.14%

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, y ganran gyffredinol o **artistiaid, performwyr ac ymarferwyr** a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

0.19%

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, y ganran gyffredinol o **aelodau staff a gwirfoddolwyr** a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

0.12%

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, y ganran gyffredinol o **ddigwyddiadau** sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhaliwyd gan eich sefydliad

0.27%

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, y ganran gyffredinol o'r **gyllideb** a wariwyd ar gynnwys perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

0.1%

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, y ganran gyffredinol o'r gyllideb a wariwyd ar **hyfforddiant a chymorth** i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

0.05%

Dulliau Gweithredu

Mae'r canfyddiadau isod yn ymwneud â chwestiynau 2, 4, 6, 8, 10 a 12, sy'n cwmpasu data ansoddol gan bob un o'r 24 o sefydliadau a ymatebodd i'r holiadur Safleoedd Cynhwysiant. Mae'r data hyn wedi'u crynhoi i ddangos categorïau'r dulliau gweithredu a ffefrir ar gyfer cynyddu cynhwysiant **cynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, aelodau staff a gwirfoddolwyr** o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac ar gyfer cynyddu **rhaglenni, gwariant yn y gyllideb a hyfforddiant a chymorth** sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu coladu ar wahân ar gyfer Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru ac ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru. Mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu cyfuno wedyn i roi cyfansymiau cyffredinol ar gyfer pob categori. Mae'r drefn blaenoriaeth ar gyfer pob grŵp yn cyfateb o ran poblogrwydd.

Categoriâu'r dulliau gweithredu wedi'u coladu yn ôl trefn blaenoriaeth

PCC: Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (35)

Ddim yn rhan o PCC: Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (14)

Cyfanswm: Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (49)

PCC: Natur agored oddefol (24)

Ddim yn rhan o PCC: Natur agored oddefol (1)

Cyfanswm: Natur agored oddefol (25)

PCC: Ceisio arweiniad a chymorth (17)

Ddim yn rhan o PCC: Ceisio arweiniad a chymorth (3)

Cyfanswm: Ceisio arweiniad a chymorth (20)

PCC: Llunio rhaglenni targededig (16)

Ddim yn rhan o PCC: Llunio rhaglenni targededig (3)

Cyfanswm: Llunio rhaglenni targededig (19)

PCC: Recriwtio targededig (16)

Ddim yn rhan o PCC: Recriwtio targededig (0)

Cyfanswm: Recriwtio targededig (16)

PCC: Dulliau codi arian targededig (6)

Ddim yn rhan o PCC: Dulliau codi arian targededig (2)

Cyfanswm: Dulliau codi arian targededig (8)

PCC: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (2)

Ddim yn rhan o PCC: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (6)

Cyfanswm: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (8)

PCC: Marchnata targededig (3)

Ddim yn rhan o PCC: Marchnata targededig (1)

Cyfanswm: Marchnata targededig (4)

PCC: Hyfforddiant targededig (3)

Ddim yn rhan o PCC: Hyfforddiant targededig (0)

Cyfanswm: Hyfforddiant targededig (3)

PCC: Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (3)

Ddim yn rhan o PCC: Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (0)

Cyfanswm: Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (3)

PCC: Cyfleoedd targededig (2)

Ddim yn rhan o PCC: Cyfleoedd targededig (0)

Cyfanswm: Cyfleoedd targededig (2)

PCC: Cyllid targededig (1)

Ddim yn rhan o PCC: Cyllid targededig (0)

Cyfanswm: Cyllid targededig (1)

PCC: Mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu (1)

Ddim yn rhan o PCC: Mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu (0)

Cyfanswm: Mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu (1)

Crynodeb o'r Wybodaeth Ategol (Cwestiwn 13)

Roedd chwech o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n hastudiaeth wedi rhoi gwybodaeth a awgrymai eu bod yn bwriadu: **ceisio arweiniad a chymorth, mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu, a chynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned.**

Roedd **natur agored oddefol** hefyd yn amlwg, ynghyd â'r holiadur yn cael ei ddefnyddio'n gyfle i gyfleu gwybodaeth am restr o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol a oedd wedi digwydd, ac nad oeddent â chysylltiad uniongyrchol â'r sefydliad a oedd yn adrodd.

Nid oedd yr un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n hastudiaeth wedi llenwi'r adran hon.

Nid yw'r canlyniadau o adran gwybodaeth ategol ein holiadur wedi'u cynnwys yn ein trefn gyffredinol o gategorïau a ffefrir gan fod cwblhau'r rhan hon o'r astudiaeth yn ddewisol er mwyn darparu ar gyfer unrhyw bwyntiau y gallai'r cwestiynau craidd fod wedi'u methu.

Casgliadau

Ystadegau

O ystyried y diffyg systemau casglu data cyfredol sydd ar waith yn y rhan fwyaf o sefydliadau, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r ystadegau cofnodedig a ddaeth i law trwy'r holiaduron a lenwyd o bosibl yn adlewyrchu'r lefelau gwirioneddol o ran ymgysylltu, llunio rhaglenni, gwariant yn y gyllideb, a hyfforddiant a brofir gan y sefydliadau a gymerodd ran yn ein hastudiaeth. Roedd yr holiadur Safleoedd Cynhwysiant yn gofyn am ganrannau **cofnodedig**, ac felly mesuradwy, yn unig. Yn absenoldeb y rhain, ni chafodd unrhyw ddata tybiedig eu cynnwys yn ein dadansoddiadau na'n canfyddiadau.

Yng ngoleuni lefelau'r canrannau cofnodedig a gyflwynwyd trwy'r holiaduron a lenwyd, mae dau bwynt arwyddocaol wedi dod i'r amlwg:

Yn gyntaf, diffygion y systemau casglu data cyfredol.

Yn ail, yr angen am ddulliau mwy trylwyr o fonitro ystadegau er mwyn mesur y lefelau o gynhwysiant, cyfranogiad ac ymgysylltu a fydd, yn ôl pob tebyg, yn ofynnol yn fwy rheolaidd gan gyrff cyllido yn y dyfodol.

Er gwaethaf cyfyngiadau'r systemau monitro ystadegol presennol sydd ar waith yn y sefydliadau sy'n rhan o'n hastudiaeth, mae'r rhan fwyaf o'r rheiny a lenwodd yr holiadur Safleoedd Cynhwysiant yn cydnabod yr angen i annog mwy o gynhwysiant ar gyfer cynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae cynyddu swm y cynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ynghyd â'r cynnydd o ran gwariant yn y gyllideb ar gynnwys o'r fath o ganlyniad i hynny, hefyd yn cael eu cydnabod yn gyffredinol.

Mae'n ymddangos bod rôl hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn llai pwysig i'n hymatebwyr. Efallai mai'r rheswm am hyn yw dryswch o ran pa un a yw'r hyfforddiant a'r cymorth wedi'u bwriadu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, neu a ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer yr holl staff er mwyn meithrin mwy o ymwybyddiaeth o ddiwylliant a chyd-destun cymdeithasol Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Er gwaethaf diffygion o ran casglu data ynghylch amrywiaeth ymhlith cynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, staff, gwirfoddolwyr a digwyddiadau a gynhelir gan y sefydliadau a lenwodd yr holiadur Safleoedd Cynhwysiant, mae'n amlwg bod y lefelau cynhwysiant ym mhob maes ar gyfer pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn isel iawn. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn y rhan fwyaf o'r holiaduron a lenwyd yn dangos parodrwydd i gymryd camau tuag at gynyddu lefelau cyfranogiad cynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, staff a gwirfoddolwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn cynyddu, yn ei dro, gynhwysiant ymhlith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gyffredinol ledled sector y celfyddydau yng Nghymru.

Mae ein canfyddiadau'n dangos nad oedd nifer o sefydliadau yn gallu darparu gwybodaeth ystadegol am y lefelau o ymgysylltu â chynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, staff a gwirfoddolwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, na chwaith am lunio rhaglenni, y gyllideb na hyfforddiant. Byddai cyflwyno systemau casglu data newydd o fudd nid yn unig i sefydliadau celfyddydol unigol ond hefyd i'r gyrff cyllido sy'n darparu cymorth.

Camau Gweithredu

Mae cyfyngiadau'r data ystadegol a gafwyd trwy'r holiadur Safleoedd Cynhwysiant wedi'u hamlygu uchod, ynghyd â'r cyfleoedd y gallai systemau presennol eu hysgogi ar gyfer gwella dulliau o gasglu data yn y dyfodol. Mae'r adran nesaf yn ystyried ymatebion i gwestiynau'n ymwneud â'r camau y mae sefydliadau'n awgrymu y gellid eu cymryd i gynyddu lefelau cynhwysiant ar gyfer cynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ogystal ag i gynyddu swm y cynnwys, yr hyfforddiant a'r cymorth, a'r gwariant yn y gyllideb sy'n gysylltiedig â Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Trafodir isod y categorïau o ran camau gweithredu a nodwyd yn ystod ein dadansoddiad o ddata'r holiadur Safleoedd Cynhwysiant, a hynny yn ôl trefn poblogrwydd cyffredinol. Er bod poblogrwydd pob categori o gamau gweithredu wedi amrywio yn ôl pob cwestiwn, roedd blaenoriaethau pendant yn amlwg drwyddi draw. Roedd hyn yn ein galluogi i ddod i gasgliadau ynghylch nodweddu'r mathau o gamau gweithredu y mae sefydliadau'n eu hawgrymu er mwyn cynyddu cynhwysiant ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn sector y celfyddydau yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o'r categorïau yn hunanesboniadol, ac eithrio '*natur agored oddefol*' a ddewiswyd i nodweddu atebion a oedd yn awgrymu nad oedd angen newid y systemau gweithredu presennol, a bod polisi agored i bawb ar waith mewn sefydliadau o'r fath.

Mae'n amlwg o ganlyniadau'r holiadur Safleoedd Cynhwysiant yr ystyrir mai **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned** (49) yw'r mecanwaith mwyaf effeithiol ar gyfer cynyddu cynhwysiant cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y sefydliadau a ymatebodd i'n holiadur. Mae'n bosibl cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd, a thrafodir rhai o'r ffyrdd hyn yn adrannau Argymhellion, Map Ffordd ac Adnoddau yr adroddiad hwn.

Dilynir hyn gan **natur agored oddefol** (25), sy'n awgrymu bod llawer o'r sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw trwy gyfrwng yr holiadur yn teimlo bod y gweithrediadau sydd ganddynt ar waith ar hyn o bryd yn ddigonol i fynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd yn nemograffeg eu cynulleidfa, eu gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, a'u staff a gwirfoddolwyr, a hefyd i fynd i'r afael â'u strategaethau o ran llunio rhaglenni, y gyllideb, hyfforddiant a chymorth.

Ceisio arweiniad a chymorth (20) yw'r dull mwyaf cyffredin nesaf a nodir ar gyfer cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd llwybrau posibl i geisio cymorth o'r fath yn cael eu trafod eto yn adrannau Argymhellion, Map Ffordd ac Adnoddau yr adroddiad hwn.

Mae'r categorïau targededig yn nodi'n glir y camau a awgrymir ar gyfer gwella cynhwysiant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Roedd categorïau megis **llunio rhaglenni targededig** (19), **recriwtio targededig** (16) a **dulliau codi arian targededig** (8) yn fwyaf amlwg mewn perthynas â llunio rhaglenni, staff a gwirfoddolwyr, a chynyddu gwariant yn y gyllideb. Eto, bydd llwybrau posibl tuag at dargedu yn cael eu hamlinellu yn adrannau Argymhellion, Map Ffordd ac Adnoddau yr adroddiad hwn.

Roedd un o'n hymatebwyr wedi nodi **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (8) fel y dull mwyaf effeithiol yn ateb i'r holl gwestiynau ansoddol yn yr holiadur Safleoedd Cynhwysiant. Gall hyn ymddangos yn ddiddychymyg ar ran y sefydliad penodol hwn, ond yr hyn sy'n peri mwy o syndod, efallai, yw mai dwywaith yn unig y cafodd y dull hwn, sydd, i bob golwg, yn ddull uniongyrchol o gynyddu cynhwysiant, ei awgrymu gan y 23 o sefydliadau eraill fel llwybr gweithredu posibl. Yn amlwg, mae meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny, yn offer pwysig mewn unrhyw ymgais i gynyddu ymgysylltiad â chymunedau anodd eu cyrraedd. Trafodir y dulliau posibl o

ymgysylltu â rhaglenni o'r fath yn adrannau Argymhellion, Map Ffordd ac Adnoddau yr adroddiad hwn.

Unwaith eto, mae **marchnata targededig** (4) a **hyfforddiant targededig** (3) yn hunanesboniadol o ran bwriad a chanlyniadau posibl, tra bo **ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr** (3) yn defnyddio dull gwahanol. Er nad oedd y dull penodol hwn o weithredu ymhlith y dulliau mwyaf poblogaidd o wella cynhwysiant, gallai'r ymdrech y medrai sefydliad ei gwneud i ymgysylltu â chynnyrch artistig a diwyllianol cymuned benodol fod yn fuddiol mewn sawl ffordd, ac, yn anad dim, o ran y potensial i nodi artistiaid, gweithiau celf, perfformwyr neu naratifau hanesyddol penodol a allai gyd-fynd â thymor o ddigwyddiadau cynlluniedig, neu i ysbrydoli sefydliad i gychwyn tymor yn seiliedig ar ei ganfyddiadau. Mae'r math hwn o ddull gweithredu yn dangos ymgysylltiad rhagweithiol a allai arwain at ganlyniadau cadarnhaol annisgwyl. Eir i'r afael ag adnoddau posibl sydd ar gael i sefydliadau yn adrannau Argymhellion, Map Ffordd ac Adnoddau yr adroddiad hwn.

Mae **cyfleoedd targededig** (2) a **chyllid targededig** (1) yn nodi camau gweithredu clir mewn perthynas â recriwtio a dyrannu cyllideb, tra bo **mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu** (1) yn dilyn llwybr mwy rhagweithiol i ymgysylltu. Roedd y categori olaf hwn ymhlith y rhai a nodwyd leiaf aml ar gyfer cynyddu cynhwysiant, ac ymddengys ei fod ymhlith yr opsiynau llai deniadol, naill ai am nad ystyrir ei fod yn effeithiol, neu am fod cydweithio o'r fath yn gofyn am fwy o fuddsoddiad o ran amser a galluedd sefydliadol. Fel yn achos y cam gweithredu a amlinellir uchod, sef ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, os yw sefydliad yn fodlon neilltuo amser ac adnoddau i wneud cysylltiadau â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau ymhlith Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mae'r canlyniadau posibl yn debygol o fod o fudd i bawb.

Bydd adrannau nesaf yr adroddiad hwn, sef Argymhellion, Map Ffordd ac Adnoddau, yn nodi camau gweithredu ac adnoddau sydd ar gael mewn perthynas â'r casgliadau a amlinellir uchod.

Argymhellion

Casglu Data

Fel y nodwyd yn ein casgliadau, nid oedd llawer o sefydliadau'n gallu darparu gwybodaeth ystadegol am y lefelau o ymgysylltu â chynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, staff a gwirfoddolwyr ymhlith Sipsiwn, Roma a Theithwyr, nac am lunio rhaglenni, y gyllideb na hyfforddiant.

Yn achos Cleientiaid PCC, efallai fod hyn yn rhywbeth y gellid mynd i'r afael ag ef trwy gynnwys gofyniad yng nghontractau CCC i gasglu data i ddangos gwybodaeth ystadegol, a bod hwnnw'n amod ar gyfer cael cyllid. Byddai mecanwaith o'r fath yn fanteisiol i sefydliadau nid yn unig am y byddai'n cynhyrchu data mesuradwy sydd ar gael mewn perthynas â'r lefelau ymgysylltu â Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ond byddai hyn hefyd yn wir o ran amrywiaeth ehangach a lefelau cynhwysiant ar gyfer grwpiau ethnig eraill.

Felly, argymhellir y dylai sefydliadau weithredu, neu ddiweddarau, systemau cyfredol i'w galluogi i gofnodi'r amrywiaeth ethnig ymhlith cynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, staff a gwirfoddolwyr, gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gywir.

Argymhellir hefyd y dylai sefydliadau fonitro profiadau cynulleidfaoedd trwy ddulliau cofnodi, sy'n cynnwys holiaduron, ffotograffiaeth, ffurflenni adborth, cyfweiliadau llafar, llyfrau ymwelwyr, ac ati.

Targedau

Gallai gweithredu targedau canrannau amrywiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, staff a gwirfoddolwyr o grwpiau pobl dduon a phobl o liw nad ydynt yn dduon, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, fod yn allweddol o ran cynyddu cynhwysiant ar gyfer y grwpiau hyn.

Gellid gosod cwotâu ar gyfer targedau staff trwy ymgynghoriad ystyrlon â'r gymuned i sicrhau bod mecanweithiau recriwtio priodol ar waith sy'n mynd ati i annog ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Gallai dull tebyg sy'n gofyn am lefel ofynnol o ymrwymiad i lunio rhaglenni, y gyllideb a hyfforddiant ar gyfer grwpiau penodol, y gellid ei holrhain a'i monitro, hefyd fod yn ofyniad mewn contractau ar gyfer Cleientiaid PCC. Mae'n bosibl bod manylion o'r fath yn bodoli eisoes yng nghontractau PCC ac, os felly, gellid efallai eu hailaddasu i lunio offeryn mwy soffistigedig a sensitif a allai gynnwys lefel ehangach o amrywiaeth yn y rhaglenni y mae sefydliadau yn eu cynnig i'r cyhoedd.

Gellid neilltuo, olrhain a monitro cyllid ar gyfer llunio rhaglenni sy'n berthnasol i bobl dduon a phobl o liw nad ydynt yn dduon, gyda chyfran benodol ohono yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Gallai hyn hefyd fod o fudd i sefydliadau celfyddydol ac CCC wrth iddynt fynd ar drywydd cynhwysiant cynyddol.

I'r perwyl hwn, dylai cronfeydd penodol fod ar gael gan CCC a PCC ar gyfer comisiynu gwaith newydd sy'n berthnasol i bobl dduon a phobl o liw nad ydynt yn dduon, gyda chyfran benodol ohonynt ar gael ar gyfer cynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Ymgysylltu a Chydweithredu

Roedd canfyddiadau'r astudiaeth Safleoedd Cynhwysiant yn nodi mai cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a sefydliadau yn y cymunedau hynny yw'r dull gorau o fynd

i'r afael â chynhwysiant. Y dull mwyaf effeithlon i sefydliadau celfyddydol ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr lleol ac ehangach fyddai wrth froceru perthnasoedd trwy ymgynghorwyr a sefydliadau arbenigol proffesiynol, annibynnol ymhlith Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Felly argymhellir y dylai sefydliadau celfyddydol geisio arweiniad a chymorth gan asiantaethau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn meithrin a chynnal perthnasoedd â chymunedau lleol.

Byddai penodi swyddogion ymgysylltu â'r gymuned mewn sefydliadau celfyddydol ac yn CCC i gysylltu â chymunedau a sefydliadau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cynyddu ymdrechion tuag at gydweithredu o'r fath. Gallai fformiwleiddio cymorth pwrpasol ar gyfer sefydliadau, gan roi ystyriaeth i'r sefyllfa leol, hefyd oleuo llwybrau tuag at gydweithredu. Gallai swyddogion amrywiaeth dynodedig hefyd gyflawni'r rôl o hyrwyddo celfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Dylai cleientiaid PCC sicrhau eu bod yn cysylltu â sefydliad celfyddydol dan arweiniad Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n ddibynadwy, a hynny yn ystod blwyddyn gyntaf eu dyfarniad cyllid newydd fel y gallant ddechrau gweithio ar eu map ffordd tuag at ymgysylltu cyn gynted â phosibl yng nghylch bywyd eu grant, a hynny er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu.

Llunio Rhaglenni

Yn llinyn ategol i'r broses o weithredu targedau canrannau sy'n cael eu holrhain a'u monitro ar gyfer cynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr, fel yr argymhellir yn yr adran targedau uchod, argymhellir y dylai sefydliadau celfyddydol gynnal digwyddiadau i ddathlu dyddiadau arbennig yng nghalendr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym mis Mehefin, a Diwrnod Romani Rhyngwladol ar 8 Ebrill. Gall cynnal y mathau hyn o raglenni a chynnwys fod yn gymharol rwydd, a byddai'n sicrhau bod bwriadau sefydliadau celfyddydol o ran ymgysylltu â diwylliant a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn weladwy.

Er bod digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chalendr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddefnyddiol, dylai sefydliadau anelu at integreiddio cynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled cylch eu rhaglenni er mwyn dangos ymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a chynhwysiant.

Bydd gwelededd ar gyfer cynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws pob agwedd a gofod mewn sefydliadau celfyddydol, yn cynnwys agweddau cymunedol a phroffesiynol, yn dangos ymrwymiad i hyd a lled y cynhyrchiant artistig mewn cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a hynny ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd rhaglennu gwaith newydd gan ymarferwyr yn y celfyddydau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr hefyd yn amlygu ymrwymiad i feithrin gwaith newydd gan y gymuned. Gellid hwyluso hyn trwy gyllid sbarduno.

Hyfforddiant

Yn yr un modd ag y gallai targedau amrywiaeth gael eu sefydlu mewn sefydliadau celfyddydol ac yn CCC, gallai defnyddio targedau canrannau ar gyfer hyfforddiant sy'n ymwneud â chymunedau a diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr hefyd fod yn allweddol o ran cynyddu ymgysylltiad. Er eglurder, hyfforddiant ar gyfer staff sefydliadau celfyddydol sy'n ofynnol, i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â chefnidir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae hyn nid yn unig yn ehangu sail wybodaeth sefydliad, ond gall hefyd ysgogi syniadau ar gyfer digwyddiadau penodol y gellir eu cynnal yn rhan o raglenni sefydliadau celfyddydol. Rhoddir sylw i wybodaeth am argaeledd hyfforddiant yn adran Adnoddau y ddogfen hon.

Argymhellir hefyd y dylai sefydliadau celfyddydol ac CCC gynnal archwiliadau o sgiliau i nodi bylchau o ran gwybodaeth a hyfforddiant mewn perthynas â gweithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dylai'r archwiliadau hyn gael eu cynnal mewn ymgynghoriad â sefydliadau arbenigol a arweinir gan Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Dylid cynnal hyfforddiant ar agweddau gwrth-sipsiwn er mwyn addysgu aelodau staff ac i hwyluso trefniadau diogelu ar gyfer aelodau o gymunedau.

Byddai cynnal hyfforddiant ar destun y cyfryngau hefyd o fudd fel y gall sefydliadau fod yn barod ar gyfer unrhyw ymatebion negyddol gan y cyfryngau y gallent eu hwynebu mewn perthynas â'u rhaglenni.

Byddai'n ddefnyddiol cynnal hyfforddiant ar 'Ddamcaniaeth Newid' er mwyn meintioli'r effaith y mae sefydliadau celfyddydol yn ei chael ar gymunedau.

Mae manylion y sefydliadau sy'n darparu'r math hwnnw o hyfforddiant a chymorth i'w gweld yn adran Adnoddau yr adroddiad hwn ac ar wefan Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani.

Polisi a Gwaddol

Argymhellir y dylai sefydliadau celfyddydol weithredu polisi amrywiaeth mewn perthynas ag ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn cynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dylai'r polisi hwn gael ei adolygu'n flynyddol i gyd-fynd ag adolygiad blynyddol y sefydliad o'i bolisiau. Dylai'r polisi hefyd fod ar gael ar wefannau sefydliadau.

Argymhellir hefyd y dylai mecanweithiau gwaddol gael eu sefydlu i adeiladu ar berthnasoedd â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac unigolion o'r cymunedau hynny. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i'r sefydliadau hynny sydd eisoes wedi cydweithredu â phartneriaid, staff neu wirfoddolwyr ymhlith Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Dylai rhaglenni gwaddol gynnwys rhagolygon o'r trefniadau strategol i lunio rhaglenni â chynnwys a digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd hyn hefyd yn galluogi sefydliadau i feintioli eu targedau allgymorth a chael effaith gadarnhaol ar gysylltiadau cymunedol, yn ogystal â helpu i ehangu eu hadnoddau diwylliannol eu hunain.

Gallai cyflwyno cyfweiliadau gadael ar ôl pob cydweithrediad hefyd gynnig y cyfle i ddysgu pa ddulliau a chmau gweithredu sy'n gweithio orau, a hynny er mwyn llywio trefniadau ymgysylltu ar draws cymunedau yn y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn galluogi i wybodaeth gael ei throsglwyddo, yn cynorthwyo i gynnal perthnasoedd presennol, ac yn helpu i feithrin perthnasoedd newydd.

Byddai sefydlu llyfrgelloedd adnoddau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, boed y rheiny'n rhai ffisegol a/neu rithwir, mewn sefydliadau celfyddydol yn arwydd cynyddol o ymrwymiad i gynhwysiant, a byddai hefyd yn allweddol o ran hyfforddi staff.

Gallai dyfarnu ardystiad arfarnu achrededig mewn perthynas â Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sefydliadau celfyddydol, a hynny gan sefydliadau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mewn partneriaeth ag CCC, fod yn arwydd pendant o welliant. Ni ddylid dyfarnu ardystiad o'r fath oni bai y ceir gwelliant sylweddol yn nhrefniadau ymgysylltu a chynhwysiant sefydliadau celfyddydol.

Map Ffordd tuag at Ymgysylltu

Yr hyn sy'n allweddol wrth gynyddu ymgysylltiad ag unrhyw gymuned yw meithrin perthnasoedd – ac mae hyn yn cymryd amser ac ymrwymiad. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio y dylid cynnal pob rhyngweithiad gyda pharch a chefnogaeth cyd-rhwng y naill a'r llall.

Mae'n annhebygol mai ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr fydd yr opsiwn dewisol ar gyfer sefydliadau sector y celfyddydau, a hynny am y gallai diffyg cyfarwydd-deb ar y naill ochr a'r llall arwain, yn ddealladwy, at rwystrau canfyddedig i gyfathrebu agored. Fel yn achos unrhyw gymuned gymharol gaeedig arall, ni ellir tanbrizio rôl hanfodol cyfryngwyr wrth froceru perthnasoedd.

Mae asiantiaid cyfryngol yn gweithredu ar draws ffiniau. Mae'n anochel y bydd sefydliadau dibynadwy sydd â hanes profedig o weithredu er budd cymuned benodol yn sicrhau ymddiriedaeth y gymuned honno. Mae ymddiriedaeth o'r fath yn rhoi'r sefydliad porthgadw mewn sefyllfa o fraint, lle gellir trafod deialog a gweithgarwch ymhlith artistiaid, cymunedau a sefydliadau yn sector y celfyddydau, gyda hynny wedyn yn arwain at berthnasoedd a all fod o fudd i bob parti. Yn ddelfrydol, dylai sefydliadau porthgadw gael eu harwain a'u rheoli gan Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae rôl celfyddyd o ran cyfathrebu ar draws amrywiaeth o gefndiroedd wedi'i hen sefydlu. Mae rôl yr artist yn debyg, o ran hwyluso ymgysylltiad sy'n mynd y tu hwnt i rwystrau. Gall ymchwil i arferion artistig artistiaid o dras Sipsiwn, Roma neu Deithwyr nodi unigolion a all hefyd weithredu yn rôl cyfryngwyr y gellir cydweithredu trwyddynt. Gall rhyngweithio trwy negodi ymhlith artistiaid, cymunedau a sefydliadau sector y celfyddydau sbarduno deialog ac ymgysylltiad ar draws cyfranogwyr.

Mae pecynnau cymorth, o ran eu natur, yn ymwneud ag amlygu camau ymarferol y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â materion penodol. Er y bydd y math hwn o ddull gweithredu yn gweithio ar gyfer rhai agweddau ar amrywiaeth, nid yw mor syml â hynny mewn perthynas ag agweddau eraill megis ethnigrwydd. Yng ngoleuni hyn, mae'r Map Ffordd canlynol yn cyfleu dilyniant naratif clir tuag at gydweithrediad a chynhwysiant ar gyfer sefydliadau celfyddydol. Gellir ystyried y canllaw hwn yn gamau cyntaf tuag at yr hyn sydd, wedi'r cyfan, yn gyfres gymhleth a greddfol o faterion nad ydym ond yn megis dechrau mynd i'r afael â nhw.

I ryw raddau, mae'r Map Ffordd hwn yn troi canfyddiadau'r adroddiad hwn wyneb i waered, a hynny yn yr ystyr mai'r camau tuag at gynhwysiant a nodir leiaf aml, yn baradocsaid, yw'r camau y dylid eu cymryd er mwyn gallu cyflawni'r camau a nodir amlaf. Y dull mwyaf poblogaidd a gofnodwyd ar gyfer cynyddu cynhwysiant ymhlith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr oedd **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a sefydliadau yn y cymunedau hynny**, a'r dulliau a nodwyd leiaf aml oedd **ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu**. Gyda hyn mewn golwg, mae'r canllawiau canlynol yn nodi'r camau tuag at gynyddu cynhwysiant cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn sector y celfyddydau.

Map ffordd

Ymchwil: Cynnal ymchwil i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn ymgysylltu â'r amrywiaeth o naratifau ac arferion sydd ar gael, a'r posibiladau y mae'r rhain yn eu cynnig.

Nodi: Nodi sefydliadau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a/neu artistiaid o dras Sipsiwn, Roma neu Deithwyr sy'n cyd-fynd ag arferion rhaglennu, cylch gwaith neu nodau eich sefydliad celfyddydol.

Cyswllt: Cysylltu â'r sefydliadau celfyddydol a/neu'r artistiaid dewisol o dras Sipsiwn, Roma neu Deithwyr i ysgogi deialog. Gallai hyn fod trwy gyswllt uniongyrchol neu drwy fynd i ddigwyddiad a gynhelir gan neu sy'n cynnwys y sefydliadau a/neu'r artistiaid dan sylw.

Tir Cyffredin: Dod o hyd i dir cyffredin lle gellir cydweithredu trwy drafodaeth â sefydliadau celfyddydol a/neu artistiaid o dras Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Y Gymuned: Cynnwys digwyddiadau cymunedol yn amserlen y prosiectau, er enghraifft gweithdai neu sgysiau ag artistiaid. Gall y rhain gael eu fformiwleiddio mewn deialog â sefydliadau celfyddydol a/neu artistiaid o dras Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Cyllido: Ceisio am gyllid unigol neu ar y cyd i gefnogi'r prosiect o'r dechrau i'r diwedd, a hynny mewn deialog â sefydliadau celfyddydol a/neu artistiaid o dras Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Cynnal mewn modd Sensitif: Cynnal y digwyddiad sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn cysylltiad agos trwy gydol yr amser â sefydliadau celfyddydol a/neu artistiaid o dras Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Efallai na fydd sensitifwydd diwyllianol cymunedau penodol yn amlwg ar unwaith i'r rhai nad ydynt yn deillio o'r gymuned honno.

Cyhoeddusrwydd: Gellir targedu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd mewn modd penodol trwy gynnal deialog â sefydliadau celfyddydol a/neu artistiaid o dras Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

At hynny: Gall dathlu dyddiadau penodol yn y calendr Sipsiwn, Roma a Theithwyr fod yn weithgareddau ategol mewn sefydliadau celfyddydol, er enghraifft Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym mis Mehefin.

Parch a Chefnogaeth: Mae'n bwysig cynnal pob rhyngweithiad gyda pharch a chefnogaeth cyd-rhwng y naill a'r llall.

Gweler gwybodaeth a dolenni i adnoddau, yn cynnwys sefydliadau celfyddydol Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac ymarferwyr yn y celfyddydau o dras Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn adran Adnoddau yr adroddiad hwn. Mae rhagor o wybodaeth i gefnogi'r Map Ffordd i'w gweld yn nwy adran ategol yr adnodd Safleoedd Cynhwysiant tridarn:

Celfyddydau Romani a Theithwyr o Fysantiwm i Brydain

Lleisiau Artistiaid

Cynnal rhaglenni sy'n berthnasol i ddiwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a hynny trwy gydweithrediad â sefydliadau a/neu artistiaid o'r gymuned, yw'r ffordd fwyaf cynhyrchiol o ymgysylltu â chynulleidfaoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae rhaglenni o'r fath hefyd yn cyflwyno cyfleoedd newydd i feithrin perthnasoedd â chynulleidfaoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr y tu hwnt i ddigwyddiadau perthnasol penodol er mwyn meithrin dull 360 gradd o fynd i'r afael â chynhwysiant.

Gall y Map Ffordd amlinellir uchod fod yn gyfarwyddyd ar gyfer cynyddu ymgysylltiad ag unrhyw gymuned anodd ei chyrraedd.

Y Map Ffordd ar Waith

Ym mis Hydref 2018, cynhaliodd Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani ei drydydd Symposiwm Celfyddydau a Diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan y Celfyddydau Taliesin yn Abertawe, a chafwyd siaradwyr yn cyflwyno papurau'n ymwneud â mentrau celfyddydol Sipsiwn, Roma a Theithwyr cenedlaethol a rhyngwladol. Daeth nifer dda i'r digwyddiad undydd, gan gynnwys dau gynrychiolydd o sefydliad celfyddydol yng nghanol Cymru.

Yn ystod seibiant yn y gweithgareddau, aeth y ddau gynrychiolydd o'r sefydliad celfyddydol at y siaradwyr o Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani a oedd wedi bod ar y llwyfan, gan fynegi diddordeb brwd mewn cydweithio â'r cwmni mewn rhyw ffordd yn y dyfodol.

Yn fuan ar ôl y Symposiwm, trefnwyd cyfarfod rhwng yr holl bartïon i drafod posibilïadau ar gyfer cydweithio, ac, yn ystod y cyfarfod hwn trafodwyd y posibilrwydd o gynnal yr arddangosfa nesaf yn rhaglen Gypsy Maker Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr artistiaid a'r gweithiau celf, trefniadau llunio rhaglenni a manylion technegol, gan gynnwys yr amserlen a'r gofynion o ran gosodiad, yn ogystal â gweithgareddau ategol megis gweithdai a sgysiau gan artistiaid. Roedd y berthynas gydweithredol a feithrinwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi sicrhau hyder y byddai'r prosiect o fudd i bawb, gan gynnwys y ddau sefydliad celfyddydol, yr artistiaid, a'r cyhoedd.

Yn ystod y daith, a drefnwyd ar gyfer gwanwyn 2020, rhoddwyd terfyn ar yr holl weithgarwch cyhoeddus yn sgil pandemig y coronafeirws. Roedd hyn yn golygu na allai'r holl gynlluniau ar gyfer rhyngweithio â'r cyhoedd trwy arddangosfeydd neu weithdai, ac ati, gael eu cynnal mwyach. Fel yn achos llawer o fentrau celfyddydol eraill ar y pryd, ceisiwyd atebion cyflym i'r broblem a'u rhoi ar waith i sicrhau ffyrdd gwahanol o gynnal arddangosfeydd a digwyddiadau.

Trwy gydweithredu, llwyddodd yr holl bartïon a oedd yn rhan o'r prosiect i feddwl am ddulliau newydd o gyflwyno ac ymgysylltu. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys arddangosfa rithwir, sioe sleidiau ddigidol, rhoi testunau naratif ar waith celf ar-lein yn wythnosol i wella'r profiad gwyllo digidol, a gweithdai fideo gan artistiaid i'w galluogi i ledaenu eu gwybodaeth yn ystod y cyfyngiadau symud.

Gan fod y cynllun i gynnal arddangosfa faterol yn 2020 wedi'i ddargyfeirio oherwydd yr amgylchiadau, roedd y ddwy ochr yn teimlo y gellid gwneud ymgais arall ar gyfer taith nesaf Gypsy Maker. Unwaith eto, gwnaed trefniadau gyda set newydd o artistiaid, a hynny gydag ymwybyddiaeth trwy gydol y cyfnod, y gallai cyfyngiadau symud ddod i rym unrhyw bryd. Er gwaethaf yr ansicrwydd, llwyddwyd i gynnal yr arddangosfa, gyda nifer dda yn mynychu'r digwyddiadau agoriadol a gweithdai poblogaidd yn cael eu cynnal gan yr artistiaid ar gyfer ysgolion lleol a dysgwyr ymhlith oedolion.

Mae yna ymrwymiad gan y ddwy ochr o hyd i sicrhau bod y cydweithrediad gwerthfawr hwn yn parhau, cydweithrediad sydd wedi dangos ei werth parhaus i sefydliadau celfyddydol, yr artistiaid a'r cyhoedd, fel ei gilydd. Mae'r ymgysylltu dilynol wedi bod o fudd i bob parti trwy wella'r posibilïadau i sefydliadau ac artistiaid, fel ei gilydd, gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a chael effaith ar y sgwrs ehangach am ddiwylliant, cymdeithas a chelfyddyd gyfoes. Mae rhyngweithio cydweithredol o'r fath yn gwella cynhwysiant trwy gynyddu ôl troed cymdeithasol sefydliadau ac ehangu eu rhwydweithiau.

Adnoddau

Y CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT

Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani: <https://www.romaniarts.co.uk/>

Mae Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani (RCAC) yn sefydliad datblygu cymunedol dan arweiniad Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n cydweithredu â Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRT) a'r gymuned ehangach. Nod RCAC yw sefydlu cymunedau SRT yn gyfranogwyr gweithredol yn y gymdeithas brif ffrwd, sydd hefyd yn parhau i gynnal eu diwylliant a'u treftadaeth amlwg. Ffurfiwyd RCAC ym mis Medi 2009, a hynny'n gwmni nid-er-elw cyfyngedig trwy warant (Rhif 07005660), ac mae'n elusen gofrestredig (Rhif 1138150). Mae'r elusen yn gweithio trwy'r celfyddydau ac yn codi arian i fynd â phrosiectau datblygiad cymunedol ac addysgol i safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chymunedau nad ydynt yn SRT ledled Cymru.

Y Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau yw'r prif sefydliad Romani a Theithwyr cymunedol yng Nghymru, ac, yn draddodiadol, mae'n defnyddio'r celfyddydau a diwylliant yn gyfrwng ar gyfer eiriolaeth a grymuso ymhlith cymunedau SRT. Mae RCAC hefyd yn cefnogi unigolion i ddod yn "Hyrwyddwyr Cymunedol", yn asiantau dros newid yn eu cymunedau eu hunain, gan wneud gwahaniaeth iddynt hwy eu hunain a'r gymdeithas ehangach. Caiff y cwmni ei reoli gan Fwrdd (pwyllgor rheoli gwirfoddol) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gymunedau SRT; mae hyn yn golygu bod gan aelodau'r gymuned rôl penderfynwyr a'u bod yn rhan o'r broses o lunio'r agenda eiriolaeth a hawliau y mae RCAC yn ei hyrwyddo.

Mae RCAC yn credu ei bod yn hanfodol i'r cymunedau SRT fod ar flaen y gad o ran cynnydd cymdeithasol a datblygiadau cadarnhaol mewn cynhwysiant cymdeithasol, o ran y frwydr am hawliau SRT neu gydnabyddiaeth ohonynt, ac o ran hyrwyddo dealltwriaeth ryngddiwylliannol. Yng Nghymru, ac yn gynyddol ledled y DU, mae llywodraethau lleol, llunwyr polisi, penderfynwyr a sefydliadau lleol neu genedlaethol yn ceisio ein cyngor a'n harbenigedd. Gofynnir i ni werthuso effeithiolrwydd eu polisiau a'u strategaethau neu eu cefnogi mewn ymgynghoriadau i sicrhau bod llais y cymunedau SRT y maent yn eu gwasanaethu yn cael ei glywed. Rydym yn arwain y gwaith eirioli ar gyfer y cymunedau bregus hyn, gan ddylanwadu ar yr agendâu polisi a strategaeth yng nghyd-destun Llywodraeth ddatganoledig Cymru ac yn gynyddol yn rhyngwladol ledled y DU.

Prosiect Gypsy Maker Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani: Dechreuodd Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani ar y prosiect Gypsy Maker yn 2014, mewn ymateb i ddiffyg unrhyw raglen gymorth arwyddocaol a chynaliadwy ar gyfer artistiaid sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru a'r DU. Prif amcan Gypsy Maker o hyd yw hwyluso'r broses o ddatblygu gweithiau arloesol gan artistiaid SRT sefydledig a newydd er mwyn ysgogi deialog ar draws cymunedau ynghylch bywydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r ffyrdd y mae celf yn parhau i lywio bywydau pob un ohonom heddiw. Trwy'r gwaith hwn, mae'r prosiect yn defnyddio rhagoriaeth ac arbrofion artistig i herio hiliaeth a gwahaniaethu. Mae ansawdd uchel gwaith RCAC yn y celfyddydau wedi'i ddogfennu'n dda ac yn parhau yn rhaglen arloesol Gypsy Maker².

Adroddiad *Gypsy Maker* 2019: <http://romaniarts.co.uk/wp-content/uploads/2019/07/Please-click-on-the-link-to-download-%E2%80%98RCAC-Gypsy-Maker-Report-2019%E2%80%99.pdf>

² "Nid yw'r adolygiad hwn wedi amlygu dim ond canmoliaeth i Isaac Blake – cydnabyddir ei waith yn gyffredinol gan academyddion, Sipsiwn, Teithwyr, gwleidyddion, cyrff cyhoeddus a sefydliadau rhyngwladol. Mae hwn yn gwmni unigryw yng Nghymru y dylid ei gefnogi ym mhob ffordd bosibl." (Tu Hwnt i'r Stereoteipiau: Adolygiad o Sipsiwn/Roma/Teithwyr a'r Celfyddydau yng Nghymru, t77, CCC, Yvonne Cheal, Awst 2012, <http://romaniarts.co.uk/wpcontent/uploads/2012/12/Beyond-the-Stereotypes.pdf>)

Sefydliad Roma Ewrop ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant: <https://eriac.org/>

Mae Sefydliad Roma Ewrop ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant e.V. (ERiac) yn fenter ar y cyd rhwng Cyngor Ewrop, yr Open Society Foundations, a menter Arweinwyr Roma – Cynghair Sefydliad Roma Ewrop ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant. Mae ERiac yn gymdeithas a gofrestrwyd o dan gyfraith yr Almaen ym mis Ebrill 2017, yn Berlin, yr Almaen. Lanswyd ERiac ym mis Mehefin 2017.

Mae ERiac yn bodoli i gynyddu hunan-barch Roma, ac i leihau rhagfarn negyddol mwyafrif y boblogaeth tuag at y Roma, a hynny trwy gyfrwng y celfyddydau, diwylliant, hanes a'r cyfryngau.

Mae ERiac yn gweithredu fel hyb creadigol rhyngwladol i gefnogi'r arfer o gyfnewid syniadau creadigol ar draws ffiniau, parthau diwylliannol a hunaniaethau Romani. Ei nod yw bod yn hyrwyddwr ar gyfer cyfraniadau Romani i ddiwylliant a thalent, llwyddiant a chyflawniad yn Ewrop, yn ogystal â chofnodi profiadau hanesyddol pobl Romani yn Ewrop. Mae'n bodoli i fod yn gyfathrebwr ac yn addysgwyr cyhoeddus, ac i ledaenu delwedd gadarnhaol a gwybodaeth am bobl Romani er mwyn ysgogi deialog a meithrin parch a chyd-ddealltwriaeth.

Prif nodau hirdymor ERiac yw: – Addysgu a hysbysu'r boblogaeth nad yw'n Roma am gelfyddydau a diwylliant Roma, a helpu i feithrin dealltwriaeth, goddefgarwch a pharch y naill at y llall rhwng cymunedau Roma a chymunedau nad ydynt yn Roma; – Meithrin ymwybyddiaeth ymhlith sefydliadau, llunwyr polisi a rhanddeiliaid yn Ewrop o rôl celfyddydau a diwylliant Roma, ac adeiladu partneriaeth eang ledled Ewrop (a thu hwnt) i gefnogi celfyddydau, diwylliant a chymunedau Roma.

RomArchive: <https://www.romarchive.eu/en/>

Mae RomArchive yn archif ddigidol ryngwladol ar gyfer celfyddydau Romani – casgliad o gelf o bob math, yn cael ei ategu gan ddogfennau hanesyddol a thestunau ysgolheigaidd. Mae'r syniad ar gyfer yr archif yn seiliedig ar yr ymchwil helaeth a'r cyfweiliadau niferus a gynhaliwyd ag artistiaid, curaduron, ymgrychwr ac ysgolheigion Romani o bob rhan o Ewrop. Roedd yr ymchwil yn nodi'n glir yr angen am ofod hygyrch rhyngwladol a fyddai'n sicrhau bod diwylliannau a hanesion Romani yn weladwy, ac a fyddai hefyd yn ymateb i ystrydebau trwy hanes amgen a adroddir gan y Roma eu hunain.

Er bod archifau traddodiadol yn aml yn portreadu Roma mewn ffyrdd ystrydebol, mae RomArchive yn canolbwyntio ar eu hunangynrychiolaeth, ac yn arwain at ymddangosiad naratifau newydd sy'n adlewyrchu amrywiaeth hunaniaethau cenedlaethol a diwylliannol Romani. Mae aelodau'r gymuned i'w cael ym mhob swydd gyfrifol – maent yn guraduron, yn artistiaid, yn ysgolheigion, ac yn aelodau o fwrdd ymgynghori y prosiect. Mae'r curaduron yn pennu cynnwys yr archif ac yn cywain casgliadau sy'n ymwneud â dawns, ffilm, llenyddiaeth, cerddoriaeth, y theatr, y celfyddydau gweledol, a fflamenco, ynghyd â thystiolaeth bersonol yn ymwneud ag erledigaeth Roma o dan y drefn Natsïaidd, a deunydd ysgolheigaidd am y mudiad hawliau sifil.

Mae'r cyfoeth o gynyrchiadau artistig a diwylliannol Romani – sydd wedi'i gydbblethu'n dynn â chynyrchiadau artistig Ewrop gyfan – yn weladwy ac yn hygyrch o ganlyniad i RomArchive, a hynny er budd pawb yn Ewrop. Mae rhyngwyneb gwe yr archif, sydd mewn arddull cylchgrawn gyda delweddau a straeon, yn meddu ar apêl esthetig a fydd yn ysbrydoli defnyddwyr i ymchwilio'n ddyfnach i'r pynciau a gyflwynir, ac mae'r wybodaeth gefndir yn helpu'r defnyddiwr i ddeall y cyd-destun y crëwyd pob un o'r gweithiau ynddo. I sicrhau hygyrchedd rhyngwladol, mae'r wefan eisoes ar gael yn Saesneg, Almaeneg, a'r iaith Romani, a rhagwelir y bydd ar gael mewn ieithoedd eraill yn y dyfodol agos.

Romany Theatre Company: <https://www.romanytheatrecompany.com/>

Sefydlwyd y Romany Theatre Company gan Dan Allum yn 2002. Ei nod yw creu dramâu cyfoethog, pwerus ac ysbrydoledig ar gyfer y theatr, y teledu a'r radio. Mae ei gwaith wedi'i wreiddio yn niwylliant a phrofiadau pobl Romani ac yn canolbwyntio'n gryf ar eu brwydr dros gydraddoldeb, gan hefyd herio barn negyddol am bobl Romani a'u ffordd o fyw. Mae'r Romany Theatre Company hefyd yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd dysgu i bobl Romani trwy ei raglenni dysgu achrededig, sy'n helpu i feithrin sgiliau cyfathrebu a sgiliau bywyd. Nod y Romany Theatre Company yw meithrin ymdeimlad o falchder mewn treftadaeth Romani er mwyn helpu i chwalu rhwystrau mewn cymdeithas a chaniatáu gwell dealltwriaeth ymhlith cymunedau. Mae'n gwneud hyn trwy: hyrwyddo cydraddoldeb, dathlu hunaniaeth a diwylliant, darparu addysg a dealltwriaeth, ac ysbrydoli trwy'r celfyddydau.

Gweledigaeth y Romany Theatre Company yw dod yn gwmni cynhyrchu sefydledig, gyda'i gyfryngau a'i academi celfyddydau cysylltiedig yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr sy'n dymuno mynd i fyd y cyfryngau neu'r celfyddydau yn broffesiynol.

GWYBODAETH GYFFREDINOL

Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani: <https://www.romaniarts.co.uk/> (gweler uchod)

Sefydliad Roma Ewrop ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant: <https://eriac.org/> (gweler uchod)

RomArchive: <https://www.romarchive.eu/en/> (gweler uchod)

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: <https://www.romaniarts.co.uk/15818-2/>

Y Cwricwlwm Astudiaethau Romani: <https://www.romaniarts.co.uk/romani-studies/>

Open Society Foundations: <https://www.opensocietyfoundations.org/explainers/roma-and-open-society>

Mae'r Open Society Foundations wedi arwain ymdrech ddigynsail, gan weithio gyda chymunedau Roma i sicrhau safle dilys Roma yng nghymdeithas Ewrop. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

Canolfan Hawliau Roma Ewrop, sef sefydliad budd cyhoeddus rhyngwladol sy'n cynorthwyo'r Roma gydag ymgyfreitha strategol, eiriolaeth ryngwladol, gwaith datblygu polisi, a hyfforddi ymgyrchwyr Roma.

Degawd o Gynhwysiant Roma 2005-2015, sef menter ryngwladol mewn partneriaeth â Banc y Byd, a rwymodd wladwriaethau a oedd yn llofnodwyr i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn y Roma ac i gau'r bwlch o ran lles ac amodau byw rhwng y Roma a'r boblogaeth gyffredinol.

Y Gronfa Addysg Roma, sydd wedi helpu i ddod â dros 156,000 o Roma i'r ysgol, yn fyfyrwyr ac yn athrawon.

Trwy ymgyfreitha, penderfyniad pwysig gan Lys Hawliau Dynol Ewrop i roi diwedd ar wahanu plant Roma mewn ysgolion yn y Weriniaeth Tsiec, arfer sy'n gosod plant Roma mewn ysgolion arbennig ar gyfer plant ag anableddau dysgu.

Chwalu rhwystrau sy'n atal y Roma rhag cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd o safon trwy feithrin polisiâu iechyd cyhoeddus cadarn ledled Canolbarth a Dwyrain Ewrop.

Ymgyrchoedd dan arweiniad Roma i gofrestru ar gyfer cyfrifiadau, sy'n helpu i leihau anweledigrwydd poblogaethau Roma mewn rhannau o Ganol a Dwyrain Ewrop, yn ogystal â'r ofn y mae pobl yn ei deimlo yn eu cylch.

Barvalipe, sef y Gwersyll Haf Balchder Roma cyntaf erioed, sy'n dod â Roma ifanc ynghyd i ddysgu am ddiwylliant, hanes a chyflawniadau Roma.

Cannoedd o sefydliadau ac unigolion Roma sy'n gallu sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed wrth iddynt geisio cydraddoldeb a chyfiawnder.

Cyngor Ewrop: <http://blog.nohatespeechmovement.org/category/roma/>

Mae Cyngor Ewrop yn sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd yn sgil yr Ail Ryfel Byd i gynnal hawliau dynol, democratiaeth, a rheol y gyfraith yn Ewrop. Fe'i sefydlwyd yn 1949, ac mae ganddo 49 o aelod-wladwriaethau, sy'n cynnwys poblogaeth o tua 675 miliwn; mae'n gweithredu â chyllideb flynyddol o tua 500 miliwn ewro.

Gwelir manylion ei gefnogaeth helaeth i amryw o fentrau Roma rhyngwladol yn y ddolen uchod.

Leeds GATE: <https://www.leedsgate.co.uk/>

Mae Leeds Gypsy & Traveller Exchange, a elwir yn fwy cyffredin yn Leeds GATE, yn sefydliad llawr gwlad bywiog a dewr dan arweiniad Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac mewn partneriaeth ag eraill ar hyd a lled Gorllewin Swydd Efrog. Mae Leeds GATE wedi amlygu hanes blaenorol arobryn o ymgyrchu cymunedol, gweithredu cymdeithasol, ac arloesedd dan arweiniad yr aelodau. Sefydlwyd Leeds GATE yn 2003 gan grŵp o bobl o'r un anian a ddaeth ynghyd gyda'r nod o wella ansawdd bywyd pobl sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Roma Support Group: <https://www.romasupportgroup.org.uk/>

Mae'r Roma Support Group (RSG) yn Elusen Gofrestredig dan arweiniad Roma (Rhif yr Elusen: 1103782) ac yn Gwmni Cyfyngedig trwy Warant wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru'r Cwmni 04645981) sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a mudwyr Roma o Ddwyrain Ewrop. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw: Roma Support Group, 17 Old Ford Road, Llundain E2 9PL. Oddi ar 1998, mae'r RSG wedi gweithio gyda miloedd o deuluoedd Roma, yn cynnig amryw o wasanaethau iddynt, yn cynnwys y gymuned Roma ym mhob agwedd ar redeg a rheoli'r sefydliad, ac yn hyrwyddo dealltwriaeth o ddiwylliant Roma yn y DU.

Friends, Families & Travellers: <https://www.gypsy-traveller.org/>

Sipsiwn a Theithwyr Cymru: <https://gtwales.org.uk/>

London Gypsies & Travellers: <http://www.lgtu.org.uk/index.php>

Canolfan Teithwyr a Roma Pavee Point: <https://www.paveepoint.ie/>

Roma Education Fund: <https://www.romaeducationfund.org/>

The Traveller Movement: <https://travellermovement.org.uk/>

Travellers Times: <http://www.travellerstimes.org.uk/>

York Travellers Trust: <https://ytt.org.uk/>

HYFFORDDIANT

Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani: <https://www.romaniarts.co.uk/training/>

<http://antigypsyism.eu>

<https://ergonetwork.eu/wp-content/uploads/2017/12/2017-12-Recommendations-to-fight-antigypsyism.pdf>

https://fnasat.centredoc.fr/doc_num.php?explnum_id=1178

https://www.theoryofchange.org/pdf/James_ToC.pdf

The Travellers Times

PECYN CWESTIYNAU CYFFREDIN AR-LEIN – SIPSIWN A THEITHWYR

https://www.travellerstimes.org.uk/sites/default/files/paragraphs/filelink/Gypsies%20and%20Travellers%20Lifestyle%20History%20and%20Culture%20FAQs_0.pdf

<https://www.travellerstimes.org.uk/index.php/media-enquiries>

Pecyn y wasg y *Travellers Times*

Lluniwyd gan ac ar gyfer newyddiadurwyr a golygyddion

<https://www.travellerstimes.org.uk/sites/default/files/paragraphs/filelink/Travellers%20Times%20Press%20Pack%20for%20journalists.pdf>

Geiriau Artistiaid

Daw'r dyfyniadau isod o'r adnodd fideo *Artists' Voices* sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn, ynghyd â'r persbectif hanesyddol a ddarperir gan y ddogfen: *Celfyddydau Romani a Theithwyr o Fysantiwm i Brydain*. Mae'r elfennau hyn yn ffurfio'r adnodd tridarn: Safleoedd Cynhwysiant: Cyfranogiad Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn Sector y Celfyddydau yng Nghymru. Gellir dod o hyd i ddolenni i bob un o dair elfen yr adnodd ar wefannau Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani a Cyngor Celfyddydau Cymru.

"Mae yna gymuned gelfyddydol o fewn cymunedau SRT ond dw i'n meddwl ei bod yn eithaf anodd dod o hyd i'r bobl hynny oni bai eich bod chi'n gwybod lle i edrych. O safbwyntiau y tu allan i'r gymuned, mae bron yn anweladwy mewn gwirionedd. Dw i ddim yn meddwl bod yna lawer o bobl sy'n dychmygu bod yna bobl o gymunedau SRT yn creu celfyddyd mewn gwirionedd, neu o leiaf yn creu celfyddyd dda."
Corrina Eastwood

"Roedd yna gyfnod yn fy mywyd, yn enwedig pan oeddwn yn ddawnsiwr ifanc, yn artist ifanc, yn ymchwilydd ifanc, lle nad oeddwn yn gweld cynrychiolaeth SRT (yn y celfyddydau) ac roedd yr hyn yr oeddwn yn ei weld yn eithaf ystrydebol, neu ramantaidd, neu broblematig ... Wrth i mi fynd yn hŷn, dw i wedi gweld artistiaid eraill, aelodau eraill o'r gymuned SRT, yn gwneud, yn bod, yn llunio, yn creu gwaith sydd wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig." Rosamaria Kostic Cisneros

"Y rheswm pam y dechreuais fymchwil i ddiwylliant gweledol Sipsiwn oedd am nad oeddwn yn gweld unrhyw gynrychiolaeth wirioneddol ohono o gwbl mewn ymchwil prif ffrwd. Mewn cyd-destun hanesyddol, neu yn bendant nid mewn ymarfer celfyddydol cyfoes. Un o ffactorau arweiniol fy ngwaith yw tynnu sylw at ddiwylliant gweledol Sipsiwn, Roma a Theithwyr am ei fod yn endid mor rymus."
Daniel Baker

"Dw i ddim yn meddwl fy mod i wedi profi unrhyw gynhwysiant mewn rhwydweithiau celfyddydau cyfoes o gwbl, oni bai ei fod dan arweiniad Roma penodol, neu'n cael ei arwain gan Romani o'r gymuned. Dydw i erioed wedi bod yn rhan o rwydwaith artistig y tu hwnt i'r gymuned honno." Dan Turner

"Mae fy mhrofiad i (o gynrychiolaeth o blith SRT yn y celfyddydau) yn ymwneud yn bennaf â hunangynrychiolaeth trwy sefydliadau celfyddydol megis Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani ac ERIAC (Sefydliad Roma Ewrop ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant), lle mae artistiaid sy'n uniaethu'n Romani ac artistiaid SRT yn cydweithredu ... Dydw i ddim yn gweld llawer iawn o ddarpariaeth neu gynhwysiant yn y sefydliad celfyddydol prif ffrwd. Ar hyn o bryd rydym yn hunangynrychioliadol ac yn gynulliadol." Imogen Bright Moon

"Dim ond trwy'r gwaith y mae Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani yn ei gynhyrchu, ei wneud a'i gomisiynu y mae gwelededd yn amlwg i mi, gwaith sy'n rhoi llwyfan i'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Oni bai am Gwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, ni fyddai yna fawr ddim cynrychiolaeth neu gynrychiolaeth o gwbl ar gyfer y gymuned yn sector y celfyddydau ledled Cymru."
Isaac Blake

"Roeddwn yn ddigon ffodus i arddangos gyda phrosiect Gypsy Maker 4 a'm galluogodd i ddarganfod fy lle fy hun ... O'm safbwynt i, bu'n brofiad cadarnhaol iawn. Dw i'n meddwl bod Llywodraeth Cymru wedi

bod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â chynrychiolaeth gan y rheiny sy'n gweithio mewn sefydliadau SRT, a hefyd gyda'r artistiaid eu hunain." Cas Holmes

"Mae Cymru o leiaf yn ceisio dangos ei bod yn cynnwys artistiaid sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a bu yna ymdrechion i hyrwyddo'r diwylliant ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd, ac i greu deialog. Dw i'n meddwl mai'r unig sefydliad sy'n comisiynu artistiaid sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yw Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani yng Nghymru. Felly, clod lle mae'n ddyledus, i Gymru a Cyngor Celfyddydau Cymru. Dw i'n meddwl eu bod yn sylweddoli, yn yr hirdymor, fod yn rhaid i chi gynnwys pawb, neu o leiaf geisio eu cynnwys, a derbyn diwylliant, a chelf yn amlygiad o'r diwylliant hwnnw."
Shamus McPhee

Cydnabyddiaethau

Yr Athro Emeritws Thomas Acton, MA, DPhil (Oxon.), FRSA, OBE

Isaac Blake

Dr Ethel Brooks

Dr Adrian Marsh

Dianne Hebb, Cyfarwyddwr: Ymgysylltu a Chydweithredu, Cyngor Celfyddydau Cymru

Amanda Loosemore, Rheolwr y Portffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru

Tim cyfathrebu Cyngor Celfyddydau Cymru

Llywodraeth Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru am gomisiynu ac ariannu'r prosiect hwn

Canolfan Celfyddydau Aberystwyth

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Arad Goch

Artes Mundi

Ballet Cymru

CBS Rhondda Cynon Taf CBC

Cerddoriaeth Gymunedol Cymru

Cwmni'r Frân Wen

Celfyddydau Anabledd Cymru

g39

Oriel Gelf Glynn Vivian

Hafren

Head 4 Arts

Mwldan

National Theatre Wales

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru

NoFit State

Oriel Davies Gallery

Canolfan Celfyddydau Pontardawe

Theatr Glan yr Afon, Casnewydd

Y Neuadd Les, Ystradgynlais

Tŷ Cerdd

Tŷ Pawb

Plant y Cymoedd

Atodiadau

Mae'r atodiadau canlynol yn dangos data a dadansoddiadau mwy manwl o'r holiadur Safleoedd Cynhwysiant, yn cynnwys cyfrifiadau manwl a chrynodebau o adroddiadau.

Mae enwau'r sefydliadau wedi'u dileu o bob ymateb er mwyn cynnal anhysbysrwydd.

Atodiad 1

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Cynulleidfaoedd

Cwestiwn 1: *Pa ganran o aelodau eich cynulleidfa a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

0.17%

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

0%

Canran Gyfunol

0.14%

Cwestiwn 2: *Sut y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eich lleoliad sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

Llunio rhaglenni targededig (10)

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (9)

Marchnata targededig (3)

Ceisio arweiniad a chymorth (3)

Natur agored oddefol (2)

Mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu (1)

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

Llunio rhaglenni targededig (1)

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (1)

Marchnata targededig (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Canfyddiadau Cyfunol

Llunio rhaglenni targededig (12)

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (10)

Marchnata targededig (4)

Ceisio arweiniad a chymorth (3)

Natur agored oddefol (2),

Mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Artistiaid, Perfformwyr ac Ymarferwyr

Cwestiwn 3: *Pa ganran o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda'ch sefydliad a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

0.23%

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

0%

Canran Gyfunol

0.19%

Cwestiwn 4: *Sut y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

Recriwtio targededig (5)

Natur agored oddefol (5)

Ceisio arweiniad a chymorth (3)

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau (3)

Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (2).

Llunio rhaglenni targededig (1)

.

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (1)

Ceisio arweiniad a chymorth (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Canfyddiadau Cyfunol

Recriwtio targededig (5)

Natur agored oddefol (5)

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau (4)

Ceisio arweiniad a chymorth (4).

Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (2)

Llunio rhaglenni targededig (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Aelodau Staff a Gwirfoddolwyr

Cwestiwn 5: *Pa ganran o'ch aelodau staff a'ch gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

0.14%

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

0%

Canran Gyfunol

0.12%

Cwestiwn 6: *Yn rhan o'ch proses recriwtio, sut y gellid cynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

Recriwtio targededig (11)

Ceisio arweiniad a chymorth (4),

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (4)

Natur agored oddefol (4)

Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

Natur agored oddefol (1)

Ceisio arweiniad a chymorth (1)

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Canfyddiadau Cyfunol

Recriwtio targededig (11)

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (5)

Ceisio arweiniad a chymorth (5)

Natur agored oddefol (5)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (2)

Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (1)

Llunio rhaglenni

Cwestiwn 7: *Pa ganran o ddigwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhaliwyd gan eich sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

0.33%

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

0%

Canfyddiadau Cyfunol

0.27%

Cwestiwn 8: *Sut y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau (10)

Natur agored oddefol (3)

Llunio rhaglenni targededig (2)

Cyfleoedd targededig (2)

Cyllid targededig (1)

Ceisio arweiniad a chymorth (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau (3)

Ceisio arweiniad a chymorth (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Canfyddiadau Cyfunol

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau (13)

Natur agored oddefol (3)

Cyfleoedd targededig (2)

Llunio rhaglenni targededig (2)

Cyllid targededig (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Y Gyllideb

Cwestiwn 9: *Pa ganran o'ch cyllideb a wariwyd ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

0.13%

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

0%

Canran Gyfunol

0.1%

Cwestiwn 10: *Beth a allai annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau (5)

Natur agored oddefol (5)

Dulliau codi arian targededig (4)

Llunio rhaglenni targededig (3)

Ceisio arweiniad a chymorth (3)

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau (2)

Dulliau codi arian targededig (1)

Llunio rhaglenni targededig (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Canfyddiadau Cyfunol

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau (7)

Natur agored oddefol (5)

Dulliau codi arian targededig (1)

Llunio rhaglenni targededig (4)

Ceisio arweiniad a chymorth (3)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Hyfforddiant a Chymorth

Cwestiwn 11: *Pa ganran o'ch cyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf a wariwyd ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

0.06%

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

0%

Canfyddiadau Cyfunol

0.05%

Cwestiwn 12: *Sut y gellid cynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eich staff a'ch gwirfoddolwyr?*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

Natur agored oddefol (5)

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (4)

Ceisio arweiniad a chymorth (3)

Hyfforddiant targededig (3)

Dulliau codi arian targededig (2)

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (3)

Dulliau codi arian targededig (1)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Canfyddiadau Cyfunol

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned (7)

Natur agored oddefol (5)

Dulliau codi arian targededig (4)

Hyfforddiant targededig (3)

Ceisio arweiniad a chymorth (3)

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny (1)

Gwybodaeth Ategol

Cwestiwn 13: *Mae croeso i chi ychwanegu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn ddefnyddiol yn eich barn chi.*

Cleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru

Roedd chwech o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n hastudiaeth wedi rhoi gwybodaeth a awgrymai eu bod yn bwriadu: **ceisio arweiniad a chymorth, mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu, a chynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned.**

Roedd **natur agored oddefol** hefyd yn amlwg, ynghyd â'r holiadur yn cael ei ddefnyddio'n gyfle i gyfleu gwybodaeth am restr o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol a oedd wedi digwydd, ac nad oeddent â chysylltiad uniongyrchol â'r sefydliad a oedd yn adrodd.

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Nid oedd yr un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n hastudiaeth wedi llenwi'r adran hon.

Atodiad 2

Canfyddiadau wedi'u Coladu

Cynulleidfaoedd

Cwestiwn 1: Pa ganran o aelodau eich cynulleidfa a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Mae canran gyfartalog yr aelodau o'r gynulleidfa a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos dau o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC = 3.25%

$$5\% + 1.5\% \div 2 = 3.25\%$$

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0.17%** o aelodau o'r gynulleidfa yn cael eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos yr 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC.

$$3.25\% \div 20 = 0.16\%$$

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Mae cyfanswm canran yr aelodau o'r gynulleidfa a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur = 0%.

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0%** o aelodau o'r gynulleidfa yn cael eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos y pedwar o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn fod canran gyfartalog o **0.14%** o aelodau o'r gynulleidfa wedi cael eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ledled yr 20 o sefydliadau PCC a'r pedwar o sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC a ymatebodd i'n holiadur.

$$3.25\% \div 24 = 0.14\%$$

Cynulleidfaoedd

Cwestiwn 2: Sut y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eich lleoliad sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Y dull a gafodd ei awgrymu amlaf i gynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr mewn digwyddiadau a gynhelir gan ein hymatebwyr sy'n rhan o PCC oedd **trwy lunio rhaglenni targededig** (10). Yn dilyn hyn yn agos oedd **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (9) a sefydliadau yn y gymuned. Awgrymodd nifer sylweddol is o'r ymatebwyr y byddai **marchnata targededig** (3) yn llwybr ymarferol ar gyfer cynyddu'r niferoedd yn y gynulleidfa sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gyda'r un nifer yn argymhell y dylid **ceisio arweiniad a chymorth** (3) ar gyfer camau pellach. Disgrifiwyd atebion dau o'n hymatebwyr yn rhai o **natur agored oddefol** (2); hynny yw, ymddengys eu bod yn teimlo nad oes angen mynd ati i newid eu dull presennol, ond eu bod yn agored i unigolion o bob math yn eu cynulleidfa. Nododd un o'n hymatebwyr **mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu** (1) yn ddull posibl o gynyddu nifer y Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu cynulleidfa.

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Ymhlith ein sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC, **llunio rhaglenni targededig** (2) oedd yr awgrym mwyaf poblogaidd. Yn dilyn hyn yn agos oedd **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (1). Awgrymodd un o'n sefydliadau sy'n rhan o PCC y byddai **marchnata targededig** (1) yn opsiwn ymarferol arall. Tynnodd un o'n sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC sylw at werth **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny**.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn mai **llunio rhaglenni targededig** (12) yw'r dull mwyaf poblogaidd a awgrymir ar gyfer cynyddu nifer y Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y gynulleidfa. Yn dilyn hyn yn agos y mae **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (10). Awgrymodd nifer sylweddol is y byddai **marchnata targededig** (4) yn llwybr ar gyfer cynyddu'r niferoedd yn y gynulleidfa sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gyda nifer llai yn argymhell y dylid **ceisio arweiniad a chymorth** (3) ar gyfer camau pellach. Disgrifiwyd atebion dau o'n hymatebwyr yn rhai o **natur agored oddefol** (2), neu eu bod yn awgrym nad oes angen mynd ati i newid eu dull presennol, ond eu bod yn parhau'n agored i unigolion o bob math yn eu cynulleidfa. Nododd un o'n hymatebwyr y byddai **mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu** (1) yn ddull posibl o gynyddu'r niferoedd yn y gynulleidfa sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Awgrymwyd **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1) gan un o'n sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC.

Artistiaid, Perfformwyr ac Ymarferwyr

Cwestiwn 3: Pa ganran o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda'ch sefydliad a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Mae canran gyfartalog yr artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos pedwar o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC = 4.62%

$$9\% + 7\% + 2\% + 0.5\% \div 4 = 4.62\%$$

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0.24%** o aelodau o'r gynulleidfa yn cael eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ar draws yr 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC.

$$4.62\% \div 20 = 0.23\%$$

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Mae cyfanswm canran yr artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur = 0%

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0%** o artistiaid, perfformwyr ac ymarferwyr yn cael eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ar draws y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn fod canran gyfartalog o **0.19%** o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ledled yr 20 o sefydliadau PCC a'r pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC a ymatebodd i'n holiadur.

$$4.62\% \div 24 = 0.19\%$$

Artistiaid, Perfformwyr ac Ymarferwyr

Cwestiwn 4: Sut y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Y dull a gafodd ei awgrymu amlaf i gynyddu nifer yr artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir mewn digwyddiadau a gynhelir gan ein hymatebwyr sy'n rhan o PCC oedd trwy **recriwtio targededig** (5). Disgrifiwyd atebion pedwar o'n hymatebwyr yn rhai o **natur agored oddefol** (4); hynny yw, ymddengys eu bod yn teimlo nad oes angen mynd ati i newid eu dull presennol, ond eu bod yn agored i artistiaid, perfformwyr ac ymarferwyr o bob math. Roedd **ceisio arweiniad a chymorth** (3) yn flaenoriaeth i dri o'n hymatebwyr, a byddai'r un nifer yn argymhell **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** a sefydliadau yn y gymuned (3). Yn dilyn hyn oedd meithrin **ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr** (2). Nododd un o'n hymatebwyr **llunio rhaglenni targededig** (1) yn ddull posibl o gynyddu nifer yr artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Ymhlith ein sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC, roedd **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** a sefydliadau yn y gymuned yn gyfartal â **ceisio arweiniad a chymorth** (1) o ran bod yn ffyrdd i gynyddu nifer yr artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir mewn digwyddiadau. Unwaith eto, tynnwyd sylw at werth **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1) gan un o'n sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn fod **recriwtio targededig** (5) yn awgrym yr un mor boblogaidd â **natur agored oddefol** (5) o ran bod yn ddull o gynyddu nifer yr artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir mewn digwyddiadau a gynhelir gan ein hymatebwyr. Yn dilyn hyn yn agos y mae **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** a sefydliadau yn y gymuned (4), gyda'r un nifer yn argymhell y dylid **ceisio arweiniad a chymorth** (4). Awgrymir bod meithrin **ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr** (2) yn offeryn ymarferol, a chafodd **llunio rhaglenni targededig** (1) a **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1) hefyd eu hawgrymu yn ddulliau posibl o gynyddu cynhwysiant ymhlith artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr mewn digwyddiadau.

Aelodau Staff a Gwirfoddolwyr

Cwestiwn 5: Pa ganran o'ch aelodau staff a'ch gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Mae canran gyfartalog yr aelodau staff a gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos dau o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC = 2.85%

$$3.7\% + 2\% \div 2 = 2.85\%$$

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0.15%** o aelodau staff a gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ar draws yr 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC

$$2.85\% \div 20 = 0.14\%$$

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Mae cyfanswm canran yr aelodau staff a gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur = 0%

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0%** o aelodau staff a gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ar draws y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn fod canran gyfartalog o **0.12%** o'u haelodau o staff a'u gwirfoddolwyr wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ledled yr 20 o sefydliadau PCC a'r pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC a ymatebodd i'n holiadur.

$$2.85\% \div 24 = 0.12\%$$

Aelodau Staff a Gwirfoddolwyr

Cwestiwn 6: Yn rhan o'ch proses recriwtio, sut y gellid cynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Ymhlith ein hymatebwyr sy'n rhan o PCC, ac yn rhan o'u proses recriwtio, **recriwtio targededig** (11) oedd y cynnig mwyaf poblogaidd ar gyfer cynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Roedd pedwar o'r sefydliadau wedi argymhell **ceisio arweiniad a chymorth** (4), gyda'r un nifer yn awgrymu **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** a sefydliadau yn y gymuned (4). Yn dilyn hyn oedd atebion a ddisgrifiwyd yn rhai o **natur agored oddefol** (4), neu a olygai cynnal eu dull agored-i-bawb presennol o fynd i'r afael â recriwtio, heb fynd ati i newid unrhyw beth. Awgrymodd un o'n hymatebwyr **ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr** (1), ac awgrymodd yr un nifer **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1).

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Ymhlith ein sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC, ac yn rhan o'u proses recriwtio, **natur agored oddefol** (1) oedd y cynnig mwyaf poblogaidd ar gyfer cynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Yn dilyn hyn oedd **ceisio arweiniad a chymorth** (1), a oedd yn gyfartal â **chynyddu ymgysylltiad â chymunedau** a sefydliadau yn y gymuned (1), ynghyd â **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1).

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn mai **recriwtio targededig** (11) yw'r awgrym mwyaf poblogaidd o hyd ar gyfer cynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'u proses recriwtio. Yn dilyn hyn y mae **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** a sefydliadau yn y gymuned (5), gyda'r un nifer yn argymhell **ceisio arweiniad a chymorth** (5), a **natur agored oddefol** (5) neu gynnal eu dull agored-i-bawb presennol o fynd i'r afael â recriwtio, heb fynd ati i newid unrhyw beth. Yn dilyn **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (2) y mae meithrin **ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr** (1) yn cael eu nodi'n ddull posibl ar gyfer cynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'u proses recriwtio.

Llunio Rhaglenni

Cwestiwn 7: Pa ganran o ddigwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhaliwyd gan eich sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Mae canran gyfartalog y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gynhaliwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos pedwar o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC = 6.5%

$$10\% + 8\% + 5\% + 3\% \div 4 = 6.5\%$$

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0.34%** o ddigwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn cael eu llwyfannu ar draws yr 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC.

$$6.5\% \div 20 = 0.33\%$$

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Mae cyfanswm canran y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhaliwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur = 0%

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0%** o artistiaid, perfformwyr ac ymarferwyr yn cael eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ar draws y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn fod canran gyfartalog o **0.27%** o'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf yn berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Mae hyn yn cynnwys yr 20 o sefydliadau PCC a'r pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC a ymatebodd i'n holiadur.

$$6.5\% \div 24 = 0.27\%$$

Llunio Rhaglenni

Cwestiwn 8: Sut y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Y dull a gafodd ei awgrymu amlaf i gynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhelir gan ein hymatebwyr sy'n rhan o PCC oedd trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (10) a sefydliadau yn y gymuned. Disgrifiwyd atebion tri o'n hymatebwyr yn rhai o **natur agored oddefol** (2); hynny yw, ymddengys eu bod yn teimlo nad oes angen mynd ati i newid eu dull presennol, ond eu bod yn agored i ddigwyddiadau o bob math. Yn dilyn hyn yn agos oedd triawd o ddulliau targededig, sef **llunio rhaglenni targededig** (2), **cyfleoedd targededig** (2) a **chyllid targededig** (1). Argymhellodd un o'n hymatebwyr **geisio arweiniad a chymorth** (1), gyda'r un nifer yn nodi gwerth **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1) ar gyfer cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhelir gan sefydliadau PCC.

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Ymhlith ein sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC, **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** a sefydliadau yn y gymuned (3) oedd yr argymhelliad mwyaf poblogaidd ar gyfer cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eu sefydliad. Yn dilyn hyn oedd **ceisio arweiniad a chymorth** (1), ynghyd â **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1).

Canfyddiadau Cyfunol

Wrth i ni gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn fod **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (13) a sefydliadau yn y gymuned yn parhau i fod yr awgrym mwyaf poblogaidd ar gyfer cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eu sefydliad. Yna gwelwn mai **natur agored oddefol** (3), neu gynnal eu dull agored-i-bawb presennol o fynd i'r afael â recriwtio, heb fynd ati i newid unrhyw beth, yw'r dull nesaf a nodir fwyaf aml. Yn dilyn hyn yn agos y mae **cyfleoedd targededig** (2) a **llunio rhaglenni targededig** (2). Awgrymodd yr un nifer o hymatebwyr **gyllid targededig** (1) a **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1) yn fodd o gynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhelir gan sefydliadau.

Y Gyllideb

Cwestiwn 9: Pa ganran o'ch cyllideb a wariwyd ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Mae canran gyfartalog y gyllideb a wariwyd ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn achos dau o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC = 2.5%

$$5\% + 0.01\% \div 2 = 2.5\%$$

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0.13%** o'r gyllideb yn cael ei wario ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ar draws yr 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC.

$$2.5\% \div 20 = 0.13\%$$

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Mae cyfanswm canran y gyllideb a wariwyd ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf yn y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur = 0%

Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o **0%** o'r gyllideb yn cael ei wario ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ar draws y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn fod canran gyfartalog o **0.1%** o'r gyllideb yn cael ei wario ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf ledled yr 20 o sefydliadau PCC a'r pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC a ymatebodd i'n holiadur.

$$2.5\% \div 24 = 0.1\%$$

Y Gyllideb

Cwestiwn 10: Beth a allai annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Y dull a gafodd ei awgrymu amlaf i gynyddu'r ganran o'r gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn nigwyddiadau ein hymatebwyr sy'n rhan o PCC oedd **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (5) a sefydliadau yn y gymuned. Cafwyd yr un nifer o ymatebion gan y rheiny a ymatebodd trwy awgrymu dull a ddisgrifir yn un o **natur agored oddefol** (5), neu o deimlo nad oes angen mynd ati i newid eu dull presennol. Yn dilyn hyn yn agos yr oedd meithrin **dulliau codi arian targededig** (4) fel modd o gynyddu canran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, ac roedd **llunio rhaglenni targededig** (3) a **cheisio arweiniad a chymorth** (3) yn cael eu hargymell gan yr un nifer o ymatebwyr.

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Ymhlith ein sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC, **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (2) a sefydliadau yn y gymuned oedd y cynnig mwyaf poblogaidd ar gyfer ysgogi cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr mewn sefydliadau. Cafodd **dulliau codi arian targededig** (1) a **llunio rhaglenni targededig** (1) eu dewis unwaith bob un, gyda'r un nifer yn awgrymu **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1) yn ddull ymarferol o weithredu.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn mai **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (7) a sefydliadau yn y gymuned yw'r dulliau mwyaf poblogaidd ar gyfer cynnyddu'r ganran o'r gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr mewn sefydliadau. Yn dilyn hyn y mae'r rheiny a ymatebodd trwy awgrymu dull a ddisgrifir yn un o **natur agored oddefol** (5), neu o deimlo nad oes angen mynd ati i newid eu dull presennol, ac roedd yr un nifer yn nodi **dulliau codi arian targededig** (1) yn ffordd effeithiol o gynyddu gwariant yn y gyllideb. **Llunio rhaglenni targededig** (4) a ddaeth nesaf o ran trefn blaenoriaeth, gyda **cheisio arweiniad a chymorth** (3) yn dilyn yn agos. Unwaith eto, nodwyd **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1) yn ddull gweithredu posibl.

Hyfforddiant a Chymorth

Cwestiwn 11: Pa ganran o'ch cyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf a wariwyd ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Mae canran gyfartalog y gyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf a wariwyd ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn achos pedwar o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC = 1.25%

$$3\% + 0.5\% + 0.5\% + 0.5\% \div 4 = 1.25\%$$

Mae hyn yn cyfateb i **0.06%** o'r gyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf yn cael ei wario ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws yr 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur, allan o gyfanswm o 67 o sefydliadau PCC.

$$1.25\% \div 20 = 0.06\%$$

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Mae cyfanswm canran y gyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf a wariwyd ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur = 0%

Mae hyn yn cyfateb i **0%** o'r gyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf yn cael ei wario ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws y pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur.

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn fod canran gyfartalog o **0.05%** o'r gyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi cael ei wario ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled yr 20 o sefydliadau PCC a'r pedwar sefydliad nad ydynt yn rhan o PCC a ymatebodd i'n holiadur.

$$1.25\% \div 24 = 0.05\%$$

Hyfforddiant a Chymorth

Cwestiwn 12: Sut y gellid cynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eich staff a'ch gwirfoddolwyr?

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Y dull a gafodd ei awgrymu amlaf i gynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer staff a gwirfoddolwyr yn sefydliadau ein hymatebwyr sy'n rhan o PCC oedd trwy feddu ar **natur agored oddefol** (5); hynny yw, mae eu hateb i'r cwestiwn yn awgrymu nad oes angen mynd ati i newid eu dull presennol, ond eu bod yn agored i awgrymiadau. Yn dilyn hyn, mae **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (4) a sefydliadau yn y gymuned yn cael ei nodi'n ddull gweithredu ymarferol. Argymhellodd tri o'n hymatebwyr **ceisio arweiniad a chymorth** (3), gyda'r un nifer yn awgrymu **hyfforddiant targededig** (3). Awgrymwyd **dulliau codi arian targededig** (2) gan ddau sefydliad fel modd o gynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eu staff a'u gwirfoddolwyr.

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Ymhlith ein sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC, **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** a sefydliadau yn y gymuned (3) oedd yr argymhelliad mwyaf poblogaidd ar gyfer cynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eu staff a'u gwirfoddolwyr. Yn dilyn hyn yn agos oedd **dulliau codi arian targededig** (1) a **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1).

Canfyddiadau Cyfunol

Trwy gyfuno'r data o'r ddau grŵp yn ein harolwg, gwelwn mai **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau** (7) a sefydliadau yn y gymuned yw'r awgrym mwyaf poblogaidd ar gyfer cynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. Disgrifiwyd atebion pump o'n hymatebwyr yn rhai o **natur agored oddefol** (5), lle ymddengys nad oes angen mynd ati i newid eu dull agored presennol o fynd i'r afael â hyfforddiant. Yn dilyn hyn y mae **dulliau codi arian targededig** (4), a chafodd **hyfforddiant targededig** (3) a **ceisio arweiniad a chymorth** (3) eu hargymell gan dri o'n hymatebwyr cyfunol. Parhawyd i awgrymu **meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny** (1) yn ddull ymarferol ar gyfer cynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar gyfer staff a gwirfoddolwyr mewn sefydliadau.

Gwybodaeth Ategol

Cwestiwn 13: *Mae croeso i chi ychwanegu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn ddefnyddiol yn eich barn chi.*

Canfyddiadau ymhlith Cleientiaid PCC

Roedd chwech o'r 20 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n hastudiaeth wedi rhoi gwybodaeth a awgrymai eu bod yn bwriadu: **ceisio arweiniad a chymorth, mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu, a chynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned.**

Roedd **natur agored oddefol** hefyd yn amlwg, ynghyd â'r holiadur yn cael ei ddefnyddio'n gyfle i gyfleu gwybodaeth am restr o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol a oedd wedi digwydd, ac nad oeddent â chysylltiad uniongyrchol â'r sefydliad a oedd yn adrodd.

Canfyddiadau ymhlith y rhai nad ydynt yn Gleientiaid PCC

Nid oedd yr un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n hastudiaeth wedi llenwi'r adran hon.

Canfyddiadau Cyfunol

Fel y nodwyd uchod.

Atodiad 3

Dadansoddiad Manwl

Cynulleidfaoedd

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 1: Pa ganran o aelodau eich cynulleidfa a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb A: Ni allwn ddarparu'r data hyn, ond byddwn yn dychmygu ei fod yn nifer bach iawn. **MD**

Ateb B: Nid ydym yn casglu data penodol i gofnodi hyn. **DC**

Ateb C: Dim. Mae ein lleoliad yn agored i bawb; nid ydym yn gofyn beth yw cefndir yr ymwelwyr. **DC**

Ateb CH: Gweler y nodiadau isod. **MD**

Ateb D: Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu offer i goladu'r math hwn o wybodaeth am ein cynulleidfaoedd. **MD**

Ateb DD: Yn anffodus, gan ein bod yn gwmni cynhyrchu, nid oes gennym fynediad at ddata cynulleidfaoedd sy'n cael eu casglu gan leoliadau sy'n cyflwyno. **MD**

Ateb E: 10% – yn ystod prosiect cyfranogol ym Merthyr Tudful. **DD**

Ateb F: 1.5%

Ateb FF: Er bod ----- yn ymwybodol bod ein cynulleidfa wedi newid yn y pum mlynedd ddiwethaf, yn benodol yng ngoleuni'r datblygiadau mewn cydweithrediad â'r prosiect SRT, nid oes gennym yr un mecanwaith ffurfiol ar waith i fesur y rhai sy'n mynychu rhaglenni arddangosfeydd. Mae hon yn broblem barhaus o ran casglu'r data hyn mewn lleoliadau di-docyn. Bu ----- yn gweithio i fynd i'r afael â hyn mewn partneriaeth â ----- mewn blynyddoedd blaenorol, a'r prosiect ----- oedd y canlyniad. Er bod hyn wedi cael ei fabwysiadu'n eang ledled Iwerddon gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, ni chafodd gefnogaeth eang yng Nghymru. Mae'r anhawster yn dal i fodoli o ran mesur cynulleidfaoedd mewn gofodau di-docyn. **MD**

Ateb G: Nid ydym yn sefydliad sy'n cyflwyno, felly yn anaml y byddwn yn cynnal perfformiadau, er ein bod yn llwyfannu dramâu cymunedol yn achlysurol. Weithiau caiff gwaith sy'n gysylltiedig â phrosiect penodol ei rannu mewn modd anffurfiol (fel arfer yn rhad ac am ddim heb docynnau). Rydym yn cadw cofnodion o'r cyfranogwyr yn fwy na'r gynulleidfa. Yn 2016 roeddem wedi llwyfannu cyngerdd o gerddoriaeth telyn deires Romani Gymreig yng Nglyn Mil gyda Robin Huw Bowen, ac roedd 27 o bobl yn bresennol yno o'r gymuned. Rydym yn gobeithio gwneud rhywbeth tebyg yn y dyfodol. Bydd grŵp o gerddorion yn perfformio cerddoriaeth Gymreig a Gwyddelig draddodiadol yno yn rhan o ddigwyddiad i ddathlu mis SRT (gyda'r bwriad o gychwyn sesiynau cerddoriaeth ar y safle). **MD**

Ateb NG: Ar hyn o bryd, ni allwn gyrchu gwybodaeth gynhwysfawr am amrywiaeth ddemograffig ein cynulleidfaoedd gan nad ydym wedi'n lleoli mewn un man, sy'n golygu ein bod yn dibynnu ar swyddfeydd tocynnau lleoliadau eraill. Nid yw llawer o leoliadau yn casglu'r data hyn yn y man gwerthu na thrwy arolygon ar ôl y sioe, ac ni allwn gyrchu gwybodaeth gyswllt y gynulleidfa i gwblhau'r gwaith hwn ein hunain oherwydd deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn gweithio ar gytundeb rhannu data gyda lleoliadau ar hyn o bryd, felly dylem fod mewn gwell sefyllfa i gael fynediad at yr wybodaeth hon yn fuan. Rydym wedi gweithio gyda phlant o gymunedau Teithwyr yn rhan o'n prosiectau gydag Unedau Atgyfeirio Disgyblion yn ein cynnig TÎM/Cydweithredu yn Sir Benfro. **MD**

Ateb H: A ninnau'n sefydliad sy'n teithio, nid oes gennym fynediad at unrhyw ddata dibynadwy ynghylch demograffeg ein cynulleidfaoedd. **MD**

Ateb I: Ni allwn roi gwybodaeth hollol gywir am ein cynulleidfa gyfan ym mhob lleoliad. Mae gennym wybodaeth gywir mewn perthynas â chynulleidfaoedd sydd wedi cael naill ai gostyngiadau targededig neu godau talebau i gael tocynnau am ddim. **MD**

Bydd canran y disgownt a'r tocynnau taleb a ddosberthir i bobl o gefndiroedd ethnig neu hiliol penodol yn amrywio yn ôl y ddemograffeg leol. Yn gyffredinol, daw 27.2% o'n cynulleidfa o gymunedau mwyafrifol byd-eang. Pan fyddwn yn perfformio yng Nghaerdydd, rydym yn cynnig tocynnau â disgownt mawr i breswylwyr Tremorfa (yn cynnwys y bobl sy'n byw ar safle Teithwyr Tremorfa). Roedd hyn yn cyfrif am tua 10% o'r holl docynnau ar gyfer ein cynhyrchiad diweddar yng Nghaerdydd.

Ateb L: 0%

Ateb LL: Ar dafod leferydd, dw i'n meddwl bod cwpl wedi mynychu eleni. **DD**

Ateb M: Mae'n anodd asesu gan nad ydym yn gofyn i'n cwsmeriaid gofnodi eu hil/rhywedd/rhywioldeb wrth iddynt archebu tocyn. Mae yna wrthwynebiad gan y cwsmeriaid/cynulleidfaoedd i ddechrau casglu'r wybodaeth hon. **DC**

Ateb N: 0%? Nid ydym yn cofnodi ystadegau cynulleidfaoedd. **DC**

Ateb O: Nid oes gennym gynulleidfaoedd fel y cyfryw – mae'r artistiaid yn cael eu galw allan – ond rwy'n weddol sicr (bydd angen i mi wirio hyn gyda staff nad ydynt yma heddiw) nad ydym wedi cael unrhyw gyflwyniadau gan ymgeiswyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **DC**

Ateb P: Rydym yn cadw cofnod o darddiad ethnig pobl ar eni ffurflenni cofrestru. Amcangyfrifwn fod tua **5%** o aelodau ein cynulleidfaoedd yn cael eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Mae ein gwaith yn lleol dros ben, ac mae pobl fel arfer yn cerdded i'n lleoliadau – mae pob un ohonynt mewn ardaloedd difreintiedig. Rydym yn ceisio creu amgylchedd cynhwysol a chefnogol i bawb sy'n bresennol.

Ateb PH: Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon. **DC**

Canfyddiadau

Nododd naw o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu ffigur ar gyfer y ganran o'u cynulleidfaoedd a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd chwech o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn casglu'r wybodaeth berthnasol a oedd yn ofynnol i ddarparu'r ganran o aelodau eu cynulleidfaoedd a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o aelodau eu cynulleidfaoedd wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 10% o aelodau ei gynulleidfaoedd wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r ganran hon yn annibynadwy am ei bod yn cyfeirio at un digwyddiad yn hytrach na chynulleidfaoedd yn ystod y pum mlynedd, yn ôl y cais.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 1.5% o aelodau ei gynulleidfaoedd wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 5% o aelodau ei gynulleidfaoedd wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

MD (methu darparu) x 9

DC (ddim yn casglu) x 6

DD (ddim yn ddilys) x 1

5% x 1

1.5% x 1

0% x 3

Cyfartaledd $5\% + 1.5\% \div 2 = 3.25\%$

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 1: Pa ganran o aelodau eich cynulleidfa a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb 1: Gan ein bod yn amgueddfa sy'n rhad ac am ddim, ar hyn o bryd, nid ydym yn casglu data am ymwelwyr sy'n ymwneud â'r wybodaeth hon. Rydym wedi dechrau gweithio gydag Audience Finder i ddatblygu gwell ffyrdd o ddeall natur ein defnyddwyr/ymwelwyr.

Ateb 2: Dim un

Ateb 3: Dim un – nid ydym yn cofnodi hunaniaeth ein cynulleidfaoedd. **DC**

Ateb 4: Ar hyn o bryd, nid ydym yn cymryd manylion ymwelwyr wedi'u dosbarthu yn ôl ethnigrwydd. O ran cyfranogwyr mewn prosiectau, rydym wedi cynnal tri phrosiect yn benodol ar gyfer grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **DC**

Canfyddiadau

Nododd pedwar o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn casglu'r wybodaeth berthnasol ofynnol i ddarparu ffigur ar gyfer y ganran o'u cynulleidfaoedd a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o aelodau ei gynulleidfaoedd wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

DC (ddim yn casglu) x 4

0% x 1

Cyfartaledd 0%

Cynulleidfaoedd

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 2: Sut y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eich lleoliad sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?

Ateb A: Ar hyn o bryd, nid ydym yn targedu'r sector Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mae'n farchnad nad ydym wedi ei phrofi. Byddai unrhyw gymorth ynghylch y ffordd i ymgysylltu mewn modd effeithiol yn wych. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb B: Gweithio gyda sefydliadau tebyg i Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani a'r gymuned Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ehangach i ddeall y rhwystrau i gymryd rhan, i sicrhau bod y gymuned yn teimlo bod yna groeso iddi, ac i ddeall yr hyn y gallwn ei wneud i gynyddu presenoldeb. **Mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu**

Ateb C: Trwy gael rhagor o wybodaeth am y modd i'w contractio. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb CH: Nid oes gennym leoliad, ond rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gynnal arddangosfeydd, comisiynau, digwyddiadau rhaglennu a gweithgareddau. O ganlyniad, rydym yn agored i gydweithredu ag eraill i fynd i'r afael â hyn ar y cyd ac i eirioli, gan hefyd gydnabod yn barchus flaenoriaethau pobl eraill. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb D: Mae angen i ni feithrin dirnadaeth/dealltwriaeth ddyfnach o'r rhwystrau, ac yna roi cynlluniau ar waith i liniaru'r rhwystrau hyn, pa un a yw'r rhwystrau hyn yn ymwneud â theithio, cyllid, canfyddiadau o'n ffurf ar gelfyddyd, neu ddim ond rhoi gwybod iddynt ein bod ni yma ac yn groesawgar. Mae angen i ni ofalu bod y gwaith a wnawn yn berthnasol ac yn ddiddorol, ac mae angen i ni feithrin ymddiriedaeth. **Llunio rhaglenni targededig**

Ateb DD: Mae angen i ni gyrchu'r data er mwyn deall niferoedd y gynulleidfa. Ni fydd nifer y Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y gynulleidfa yn cynyddu oni bai eu bod yn gweld cynrychiolaeth ar y llwyfan. **Llunio rhaglenni targededig**

Ateb E: Mewn perthynas â chynyddu niferoedd yn ein prosiectau, rydym yn ceisio ymgysylltu'n well â chymunedau SRT ar y safleoedd o amgylch De Cymru. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb F: Rhagor o brosiectau gweithredu uniongyrchol – gan sicrhau ein bod yn eu marchnata mewn modd effeithiol. **Marchnata targededig**

Ateb FF: Parhau i gymryd rhan yn y prosiect Gypsy Maker ac ymgysylltu ag RCAC. Rydym yn mynd ati i newid yr adnoddau sydd ar gael i artistiaid a'r deunydd darllen, ac mae hyn yn cynnwys cyflwyno adran fawr o lyfrau i archif llyfrgell -----, yn cynnwys *Futuroma*, *We Roma*, *A Critical Reader*, *Delaine La Bas*, a *WitchCraft*. Gobeithiwn y bydd y newid hwn o ran y modd yr ydym yn adlewyrchu'r cymunedau y mae angen i ni ymgysylltu mwy â nhw yn cyfrannu at dwf cynulleidfa wahanol. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Llunio rhaglenni targededig**

Ateb G: Rhagor o berfformiadau'n cael eu cynnal mewn cymunedau SRT – gwahoddiadau i fynd i ddigwyddiadau lleol eraill. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Llunio rhaglenni targededig**

Ateb NG: Trwy weithio mewn modd creadigol â'r cymunedau hyn i sicrhau gwell dealltwriaeth o'u diddordebau, eu hanghenion, eu cymhelliant a'r hyn sy'n eu rhwystro rhag mynychu. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag artistiaid sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr i greu theatr sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i'r cymunedau hyn. Mae yna gysylltiad cynhenid rhwng datblygu artistiaid, cyfranogwyr o'r gymuned a'r gynulleidfa. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau. Llunio rhaglenni targededig**

Ateb H: Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gynyddu ymgysylltiad yn ein lleoliadau teithiol. Trwy weithio ar y cyd â sefydliadau megis Romani Arts, yn ogystal ag â'r lleoliadau eu hunain, gobeithiwn allu nodi rhesymau pam y mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu tangynrychioli yn ein cynulleidfaoedd, a'r hyn y gallwn ei wneud i newid hynny. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau. Llunio rhaglenni targededig**

Ateb I: Trwy gynnal ein hymrwymiad i'n hymgysylltiad hyperleol a meithrin y perthnasoedd o ymddiriedaeth sy'n ofynnol i chwalu rhwystrau. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb L: Ymchwilio i le y mae cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn byw ac yn gweithio ar hyn o bryd yn ardal Abertawe a De Cymru (neu yn wir ledled Cymru).

Cysylltu â'r cymunedau hynny ac ymgynghori â nhw mewn gwahanol ffyrdd i gydgaradu prosiectau a chynlluniau ar gyfer cymryd rhan yn ein rhaglenni. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Archwilio ein casgliad sefydlog i weld a oes gennym unrhyw waith perthnasol a allai fod o ddiddordeb penodol i unigolion a chymunedau o'r cefndiroedd hyn. **Llunio rhaglenni targededig**

Ystyried ein rhaglen arddangos a dysgu a'r modd y gallwn ddyfeisio prosiectau penodol a allai fod o ddiddordeb. **Llunio rhaglenni targededig**

Cynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn ein Panel Dysgu Cymunedol. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau hyrwyddo yn gynhwysol fel ei fod yn cyrraedd ac yn ennyn diddordeb. **Marchnata targededig**

Ateb LL: Trwy raglennu cynnwys y byddent yn dymuno dod i'w weld. **Llunio rhaglenni targededig**

Ateb M: Trwy dargedu'r gymuned deithiol yn benodol ar gyfer digwyddiadau y byddai ganddynt ddiddordeb ynddynt. **Marchnata targededig**

Ateb N: Rydym fel arfer yn gweithio trwy ymateb i anghenion lleol ac anghenion sefydliadau sy'n dymuno gweithio gyda'n tîm o artistiaid cymunedol i sefydlu prosiectau celfyddydau cyfranogol neu themâu ar gyfer y rhaglen; pan fydd rhywrai'n cysylltu â ni, byddwn yn ymateb yn gadarnhaol i syniadau ar gyfer prosiectau a llunio rhaglenni. **Natur agored oddefol**

Ateb O: Byddai gennym ddiddordeb mawr mewn cyfathrebu'n uniongyrchol â'r gymuned hon a dod i gysylltiad ag artistiaid a allai weithio gyda ni. Mae hyn wedi bod yn ddiffyg ar ein rhan ni. **Natur agored oddefol**

Ateb P: Ar hyn o bryd rydym yn cynnal yr arddangosfa Gypsy Maker 5 yn y -----, ----- yn y -----, gan gydweithredu ag RCAC a'r artistiaid sy'n arddangos. Trwy ymdrechion fel hyn a thrwy gynyddu cynrychiolaeth o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gobeithiwn annog pobl i ddod i'n canolfannau a chynyddu aelodau'r gynulleidfa. **Llunio rhaglenni targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb PH: Trwy gynnwys artistiaid sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y rhaglen a gweithio'n benodol gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **Llunio rhaglenni targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Canfyddiadau

Nododd deg o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eu digwyddiadau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr trwy **llunio rhaglenni targededig**.

Nododd naw o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eu digwyddiadau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eu digwyddiadau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr trwy **farchnata targededig**.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eu digwyddiadau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr trwy **geisio arweiniad a chymorth**.

Nododd dau o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eu digwyddiadau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr trwy **natur agored oddefol**.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn ei ddigwyddiadau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr trwy **fynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu**.

Llunio rhaglenni targededig x 9

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 8

Ceisio arweiniad a chymorth x 3

Marchnata targededig x 3

Natur agored oddefol x 2

Mynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu x 1

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 2: Sut y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa yn eich lleoliad sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?

Ateb 1: Rydym wedi cefnogi gwaith Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani yn y gorffennol ac ar hyn o bryd trwy ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn Ne Cymru – roedd elfennau o hyn yn cynnwys trefnu ymweliadau â Sain Ffagan, gan gynnwys ymweliad teulu o 30 o bobl ar 25 Mehefin 2022, yn rhan o'r prosiect Teithio 'Nôl at Natur. Mae ymweliad arall ar gyfer tua 50 wedi'i amserlennu ar gyfer 10 Awst. Gellid sefydlu hwn yn weithgaredd rheolaidd. Mae yna nifer o wrthrychau yn ein casgliad sy'n cynrychioli bywyd Sipsiwn, Roma neu Deithwyr – gellid hyrwyddo eu presenoldeb yn ehangach er mwyn cynyddu niferoedd y gynulleidfa a datblygu ein casgliad ymhellach. Ar hyn o bryd, rydym yn aros am ganlyniad cais am arian, a gefnogir gan Amgueddfa Cymru, y mae Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani wedi ei gyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect a fydd yn cofnodi ac yn arddangos bywydau pobl Romani yng Nghasnewydd. At hynny, mae Swyddog Cau'r Bwlch y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr yng Nghyngor Caerdydd wedi cysylltu â ni i feithrin perthynas ddyfnach â'r gymuned.

Llunio rhaglenni targededig.

Ateb 2: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny. **Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny**

Ateb 3: Cyswllt a deialog â chymunedau SRT lleol/rhanbarthol; efallai y gallai RCAC helpu yn hyn o beth. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb 4: Gwell cyhoeddusrwydd i'n rhaglenni trwy'r Swyddog Addysg Teithwyr; rhagor o brosiectau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â grwpiau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **Marchnata targededig.**

Llunio rhaglenni targededig

Canfyddiadau

Nododd dau o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn lleoliad eu digwyddiadau trwy **lunio rhaglenni targededig**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn lleoliad ei ddigwyddiadau trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr aelodau o'r gynulleidfa sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn lleoliad ei ddigwyddiadau trwy farchnata targededig.

Llunio rhaglenni targededig x 3

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 2

Marchnata targededig x 1

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny x 1

Artistiaid, Perfformwyr ac Ymarferwyr

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 3: Pa ganran o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda'ch sefydliad a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb A: Dim un.

Ateb B: Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda 5-10 artist o'r gymuned Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, gan arddangos gwaith a darparu gweithdai. Nid oes gennym yr wybodaeth hon ar ffurf canran o'r holl artistiaid a pherfformwyr yr ydym yn gweithio gyda nhw. **MD**

Ateb C: Dim un.

Ateb CH: Gweler y nodiadau isod. **MD**

Ateb D: Dim un.

Ateb DD: Er ein bod yn gofyn i bob artist ac ymarferydd lenwi holiadur cydraddoldeb, dim ond 20% sy'n gwneud hynny. Byddwn yn parhau i annog pobl i lenwi'r wybodaeth fel bod gennym well dealltwriaeth. **MD**

Ateb E: 0.

Ateb F: 0.5%.

Ateb FF: Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf rydym wedi cynnal trafodaethau ac arddangosfeydd a sesiynau un i un gydag artistiaid o gefndiroedd SRT. Ymhlith y rhain yr oedd Daniel Baker, Shamus McPhee, Artur Conka, Billy Kerry. Sgwrs â Cas Holmes a Dan Turner, a sesiynau un i un gyda Delaine La Bas. Yn y pum mlynedd ddiwethaf rydym wedi cofnodi 321 o artistiaid a siaradwyr, sy'n golygu bod y ganran tua **2%**. Nid ydym wedi cynnwys tua 300 o gyflwyniadau i'r sioe Agored yr ydym yn ei chynnal bob blwyddyn gan na chaiff y rhain eu cofnodi yn yr un modd (nid ydym yn casglu demograffeg).

Ateb G: Dim un, hyd y gwyddom ni.

Ateb NG: 0%.

Ateb H: Nid oes gennym wybodaeth gyflawn ar gyfer y cyfnod hwn. **MD**

Ateb I: Mae'r cwmni perfformio wedi cynnwys tri artist Roma yn y pum mlynedd ddiwethaf (tua **7%**).

Ateb L: 0%.

Ateb LL: Hyd y gwn i, **dim un.**

Ateb M: Dim un, hyd y gwn i.

Ateb N: Nid ydym yn cofnodi hyn. **DC**

Ateb O: A, gweler uchod! **Dim un**

Ateb P: tua **9%**.

Ateb PH: Nid yw'r rhan fwyaf o'n artistiaid wedi nodi eu bod yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Rydym wedi gweithio gyda dau artist a nododd eu bod yn rhan o'r gymuned hon. **MD**

Canfyddiadau

Nododd deg o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'u sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd pump o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu canran ar gyfer yr artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'u sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf ac a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur nad yw'n casglu'r wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol i ddarparu canran ar gyfer yr artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'r sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf ac a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 9% o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'r sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 7% o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'r sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 2% o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'r sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0.5% o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'r sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

MD (methu darparu) x 4

DC (ddim yn casglu) x 1

9% x 1

7% x 1

2% x 1

0.5% x 1

0% x 10

Cyfartaledd $9\% + 7\% + 2\% + 0.5\% \div 4 = 4.62\%$

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 3: Pa ganran o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda'ch sefydliad a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb 1: Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. **DC**

Ateb 2: Dim un.

Ateb 3: Ni fesurwyd unrhyw ganran am nad ydym yn cofnodi. **DC**

Ateb 4: Roeddem wedi cynnal yr arddangosfa Gypsy Maker yn 2018, gan gyflwyno gwaith artistiaid o'r gymuned SRT. **MD**

Canfyddiadau

Nododd dau o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur nad ydynt yn casglu'r wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol i ddarparu canran ar gyfer yr artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'u sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf ac a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'r artistiaid, y perfformwyr a'r ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'r sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Ddim yn casglu x 2

0% x 1

Cyfartaledd 0%

Artistiaid, Perfformwyr ac Ymarferwyr

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 4: Sut y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?

Ateb A: Recriwtio targededig, a sicrhau bod cyfleoedd penodol ar gael ar gyfer artistiaid/perfformwyr/ymarferwyr. Byddem yn elwa o gael cymorth ynghylch sut i ymgysylltu mewn ffordd effeithiol. **Recriwtio targededig. Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb B: Gweithio gyda sefydliadau tebyg i Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani a'r gymuned Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ehangach i drafod cyfleoedd y gall ----- eu darparu ar gyfer artistiaid, perfformwyr ac ymarferwyr. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu arddangosfa Gypsy Maker 5 ym mis Medi 2022, ac yn awyddus i gydweithio i adeiladu cyfleoedd pellach. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb C: Rydym yn gwahodd artistiaid theatr i gwrdd â ni a dod i glyweliadau agored, a gynhelir bob 18 mis fel arfer; rydym yn cydweithio ag asiantau theatrig i drefnu'r rhain, ond mae croeso i artistiaid gysylltu â ni'n uniongyrchol. **Natur agored oddefol**

Rydym yn gwirioneddol fwynhau gweithio gydag artistiaid o gefndiroedd gwahanol, ac rydym bob amser yn agored i drafodaethau. Mae gan y cwmni ddau brosiect penodol lle rydym yn annog artistiaid theatr llawrydd i greu gwaith newydd; byddem wrth ein bodd yn rhannu'r wybodaeth hon ag artistiaid, perfformwyr ac ymarferwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **Recriwtio targededig**

Ateb CH: Ar gyfer ein harddangosfa ddwyflynyddol, rydym yn gweithredu galwad gyhoeddus agored am enwebiadau. Gall unrhyw un gyflwyno artist o unrhyw le yn y byd i gael ei ystyried gan y detholwyr. Felly, mae yna botensial eisoes i artistiaid sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr gael eu henwebu. Fodd bynnag, efallai y gallem hefyd fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol trwy benodi detholwr o'r cymunedau hynny i eiriol dros ymarferwyr creadigol a'u cynrychioli mewn modd cynhwysol, yn ogystal ag i annog enwebiadau. Byddwn hefyd yn gofalu ein bod yn cysylltu ag unigolion i gyfrannu at linyddau rhaglennu eraill fel y bo'n briodol, a thrwy hynny gellir cyflwyno pynciau trafod a chynrychioliadau o syniadau mewn trafodaethau a sgwrsiau ehangach, cysylltiedig. **Recriwtio targededig**

Ateb D: Trwy sicrhau bod y negeseuon am ein gwaith, ac am y cyfleoedd a gynigir, yn cael eu rhannu'n eang, a chyda ffocws ar gymunedau SRT. Trwy sicrhau bod ein gwaith yn teimlo'n berthnasol i gymunedau SRT, a'n bod yn wybodus am eu gwaith. Trwy sicrhau ein bod yn sefydliad y gellir ymddiried ynddo. **Recriwtio targededig Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Ateb DD: Fel yn achos cwestiwn 2 uchod – ni fydd artistiaid, perfformwyr nac ymarferwyr o gefndir Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn teimlo'n gyfforddus yn ymgysylltu â'r cwmni oni bai eu bod yn gweld bod y gwaith a gynhyrchir gennym yn eu cynrychioli. **Llunio rhaglenni targededig**

Ateb E: Yn anffodus, nid oes gennym yr un artist llawrydd sy'n SRT er gwaethaf rhoi cynnig ar hyfforddiant cerddoriaeth cymunedol. Mae angen i wella yn hyn o beth, a rhoi cynnig ar dactegau gwahanol.

Ateb F: Mwy o dargedu uniongyrchol. **Recriwtio targededig**

Ateb FF: Rydym wedi bod yn ystyried neilltuo neu dargedu cyfleoedd yn rhan o'r strwythurau galw allan sydd gennym. Teimlwn fod hon yn un ffordd o sicrhau cynnydd mewn perthynas â'r newidiadau gofynnol. Rydym hefyd yn awyddus i gynnal perthynas waith â phrosiect Gypsy Maker RCAC sy'n torri tir newydd. **Recriwtio targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb G: Yn gyntaf, rydym yn dal i weithio ar system ddibynadwy (a dienw) o fonitro amrywiaeth ein ymarferwyr celfyddydol, a hynny am ein bod wedi nodi amharodwydd i rannu gwybodaeth â ni (neu

efallai i lenwi'r ffurflenni). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn debygol nad oes yr un artist SRT, neu ddim ond ychydig, wedi gweithio gyda ni dros y pum mlynedd ddiwethaf. Hyd yma, dim ond gydag un ymarferydd y gwyddys ei fod o gefndir SRT yr ydym wedi gweithio. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori i gefnogi'r gwaith o feithrin mwy o amrywiaeth yn ein sylfaen artistiaid – nid ymatebodd unrhyw un o gefndir SRT i'n galwad, ond byddem yn croesawu cymorth yn hyn o beth.

Ceisio arweiniad a chymorth

Ateb NG: Yn aml, mae'r amser prosesu yn dynn o ran recriwtio ar gyfer rolau llawrydd, ac rydym yn gwneud ymdrech bendant i wella hyn. Gobeithiwn y bydd amserlenni recriwtio hirach ar gyfer gweithwyr llawrydd sy'n gweithio ar gynrychiadau yn golygu bod rolau'n cyrraedd rhagor o bobl. Byddem ni yn y sefydliad yn elwa o ddysgu penodol ynghylch sut i ddenu rhagor o geisiadau gan y cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb H: Rydym yn hapus i ymgysylltu â chelfyddydau Romani i drafod y modd y gall perfformwyr dawnus ifanc ymgysylltu â'n gwaith. **Natur agored oddefol**

Ateb I: Trwy sicrhau bod yr hyfforddiant gofynnol ar gyfer gyrfa broffesiynol yn rhad ac am ddim neu yn llawer mwy fforddiadwy.

Ateb L: Cynnal ymchwil benodol i artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, a sicrhau bod unrhyw wybodaeth am gyfleoedd i arddangos, perfformiadau, digwyddiadau, ac ati, yn eu cynnwys ac yn eu cyrraedd. **Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Ateb LL: Cael gwybod am y cynnyrch sydd ar gael. **Natur agored oddefol**

Ateb M: Rydym yn dewis yr unigolyn gorau ar gyfer y swydd, ni waeth beth yw ei hil/rywedd/rywioldeb. **Natur agored oddefol**

Ateb N: Rydym yn cael trafferth dod o hyd i artistiaid cymunedol medrus yn gyffredinol – bu'n rhaid i ni ddatblygu ein rhaglen hyfforddi ein hunain i gynyddu sgiliau proffesiynol; rydym yn gweithio gyda sefydliadau Cymraeg, gan gynnwys y Mentrau Iaith, i gynyddu sgiliau artistiaid cymunedol Cymraeg eu hiaith; ni wn am sefydliadau tebyg sy'n cynrychioli cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Ateb O: Ni roddwyd ateb

Ateb P: Mae gennym aelod o staff o dras Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gweithio yn ein cymunedau lleol. Mae hwn yn ddatblygiad diweddar, a, gyda'i ddirnadaeth, gobeithiwn y gallwn fod yn fwy rhagweithiol o ran denu artistiaid ac ymarferwyr, fel ei gilydd, at ein gwaith. Mae ein hartist preswyl wedi meithrin perthynas â'r RCAC ar ôl bod yn bresennol mewn symposiwm a chysylltu â Dr Daniel Baker ac Isaac Blake; arweiniodd hyn at yr arddangosfa gyntaf mewn cysylltiad â'r oriel Art in the Attic. Yn anffodus, oherwydd yr achosion o COVID, nid oedd yn bosibl cynnal yr arddangosfa Gypsy Maker 4 yn yr oriel ei hun, ac felly bu i ni ei chynnal yn ein horiel ar-lein yn ----- yn lle hynny.

Rydym yn ffodus i fod yn cynnal arddangosfa Gypsy Maker 5 yn yr oriel ar hyn o bryd, ac yn ddiweddar rydym wedi cynnal dau weithdy i blant ac oedolion gydag un o'r artistiaid, sef Rosamaria Kostic Cisneros. Byddwn yn cynnal dau weithdy arall gyda phlant ac oedolion yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, gyda'r artistiaid eraill yn arddangos, sef Imogen Bright Moon a Corrina Eastwood. Gobeithiwn y bydd yr ymgysylltu hwn yn helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach gan y bydd yr artistiaid yn siarad am eu gwaith yn ystod y gweithdy. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb PH: Rydym yn gweithio gydag artistiaid; byddem yn agored i gael gwybodaeth am artistiaid. **Natur agored oddefol**

Canfyddiadau

Nododd pump o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau eu digwyddiadau trwy **recriwtio targededig**.

Nododd pump o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau eu digwyddiadau trwy gynnal **natur agored oddefol**.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau eu digwyddiadau trwy **geisio arweiniad a chymorth**.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau eu digwyddiadau trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd dau o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau eu digwyddiadau trwy **ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau eu ddigwyddiadau trwy **lunio rhaglenni targededig**.

Recriwtio targededig x 5

Natur agored oddefol x 5

Ceisio arweiniad a chymorth x 3

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 3

Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr x 2

Llunio rhaglenni targededig x 1

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 4: Sut y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, y perfformwyr neu'r ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?

Ateb 1: Yn ychwanegol at yr hyn a amlinellir yng nghwestiwn 2, ac yn rhan o'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a ddatblygwyd ar y cyd â Cyngor Celfyddydau Cymru, [Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad | Amgueddfa Cymru](#), byddwn yn adeiladu ar ein perthynas â Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani i gynyddu cynrychiolaeth artistiaid, perfformwyr ac ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn ein rhaglennu. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb 2: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny. **Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny**

Ateb 4: Fel C2, efallai y gallai RCAC helpu. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb 4: Parhau i weithio mewn partneriaeth â Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, gan rwydweithio ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Canfyddiadau

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau ei ddigwyddiadau trwy **geisio arweiniad a chymorth**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau ei ddigwyddiadau trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer yr artistiaid, perfformwyr neu ymarferwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac a gynrychiolir yn lleoliadau ei ddigwyddiadau trwy **feithrin ymwybyddiaeth, a sicrhau hyfforddiant ar hynny**.

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 1

Ceisio arweiniad a chymorth x 1

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny x1

Natur agored oddefol x 1

Aelodau Staff a Gwirfoddolwyr

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 5: Pa ganran o'ch aelodau staff a'ch gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb A: Dim un

Ateb B: 0%

Ateb C: Mae un o aelodau ein Bwrdd Rheoli yn dod o deulu Sipsiwn. **MD**

Ateb CH: Gweler y nodiadau isod. **MD**

Ateb D: Dim un

Ateb DD: 0%

Ateb E: 0

Ateb F: 0%

Ateb FF: Does **dim un** o'r staff presennol wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Rydym yn sefydliad bach, gyda phum aelod staff rhan-amser, ac nid yw trosiant y prif strwythur wedi newid yn y cyfnod hwnnw.

Ateb G: Dim un, ond rydym yn gobeithio y bydd ein rhaglen waith gyfredol ar safleoedd SRT yn arwain at hyn yn y dyfodol.

Ateb NG: 0%

Ateb H: dim un

Ateb I: Ar hyn o bryd, mae un aelod o'r staff parhaol yn Roma (**3.7%**).

Ateb L: 0% (hyd y gwn i)

Ateb LL: sero

Ateb M: Yn anhysbys oherwydd y GDPR. Gan ein bod yn cael ein cyflogi gan sefydliad Addysg Bellach mwy, mae'r wybodaeth gan adran adnoddau dynol ganolog. **MD**

Ateb N: 0%? Nid ydym yn cofnodi nodweddion gwarchoddedig eto – rydym yn bwriadu dechrau pan fydd y capasiti yn caniatáu hynny.

Ateb O: Nid ydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr, ac mae gennym nifer bach iawn o staff (tri llawn-amser, tri rhan-amser), felly prin iawn yw'r newid o ran recriwtio. Fodd bynnag, byddem yn awyddus iawn i ymgysylltu'n uniongyrchol wrth recriwtio yn y dyfodol. **0%**

Ateb P: 2%

Ateb PH: Dim un wedi'i nodi.

Canfyddiadau

Nododd 15 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o aelodau eu staff a'u gwirfoddolwyr wedi eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu canran ar gyfer eu haelodau staff a'u gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 3.7% o aelodau ei staff a'i wirfoddolwyr wedi eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 2% o aelodau ei staff a'i wirfoddolwyr wedi eu cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

0% x 14

MD (methu darparu) x 3

3.7% x 1

2% x 1

Cyfartaledd $3.7\% + 2\% \div 2 = 2.85\%$

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 1: Pa ganran o aelodau eich cynulleidfa a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb 1: Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. **MD**

Ateb 2: Dim un

Ateb 3: Dim un wedi'i gofnodi.

Ateb 4: Cawsom un gwirfoddolwr a gofnodwyd yn Deithiwr. **MD**

Canfyddiadau

Nododd dau o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'u haelodau staff a gwirfoddolwyr wedi'u cofnodi'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd dau o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu canran ar gyfer nifer yr aelodau staff a gwirfoddolwyr a gofnodwyd yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

0% x 2

MD (methu darparu) x 2

Cyfartaledd = 0%

Aelodau Staff a Gwirfoddolwyr

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 6: Yn rhan o'ch proses recriwtio, sut y gellid cynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?

Ateb A: Recriwtio targededig – byddai arnom angen cyngor a chymorth o ran sut i fynd ati i wneud hyn. **Recriwtio targededig**

Ateb B: Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn ein gweithlu mewn perthynas â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a sicrhau bod polisïau'n gynhwysol. Estyn allan i'r gymuned, ac annog presenoldeb mewn ffeiriau recriwtio, a hynny trwy ddefnyddio mecanweithiau gweithredu cadarnhaol sy'n llywio ac yn eirioli dros lefelau ymgysylltu uwch. **Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny. Recriwtio targededig**

Ateb C: Trwy gael rhagor o wybodaeth am sut i gysylltu â nhw. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb CH: Rydym yn gweithredu set o ymarferion recriwtio agored a chynhwysol, a adolygwyd yn ddiweddar ar ôl ymgymryd â rhaglenni datblygu sefydliadol a hyfforddi staff a chyfarwyddwyr y bwrdd i fynd i'r afael â materion o'r fath. Caiff pob cyfle ei hysbysebu a'i hyrwyddo trwy ystod amrywiol o ffynonellau ac allfeydd. Fodd bynnag, gallwn bob amser wneud yn well. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y cymunedau hynny a'u bod yn clywed newyddion am gyfleoedd, byddem yn croesawu cymorth ar gyfer pethau megis cynyddu eiriolaeth a chael gwybodaeth am y ffordd orau o gyrraedd y cymunedau hynny mewn modd effeithiol fel y gellir lledaenu newyddion wrth i gyfleoedd ddod ar gael. **Ceisio arweiniad a chymorth. Natur agored oddefol**

Ateb D: Fel uchod. **Recriwtio targededig. Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Ateb DD: Y peth pwysig yw sicrhau bod y gymuned yn ymgysylltu â'n gwaith trwy gymryd rhan mewn gweithdai neu fel aelodau o'r gynulleidfa. Meithrin perthynas a rhannu cyfleoedd. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb E: A ninnau'n sefydliad bach, nid oes llawer o swyddi gwag yn dod ar gael ar gyfer staff, ac nid ydym erioed wedi cael cais oddi wrth y cymunedau hyn. Rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud rhagor yn ystod ein proses recriwtio. **Recriwtio targededig**

Ateb F: Mwy o dargedu uniongyrchol. **Recriwtio targededig**

Ateb FF: Fel uchod, ac wrth i'r strwythur staffio dyfu neu newid, byddem yn ystyried marchnata targededig ar gyfer y swyddi hyn. **Recriwtio targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb G: Meithrin perthnasoedd trwy'r rhaglen waith gyfredol, a sicrhau bod gwirfoddolwyr/cyflogeion arfaethedig yn ymwybodol o gyfleoedd i weithio gyda ni. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Recriwtio targededig.**

Ateb NG: Rydym yn defnyddio ystod o ymarferion recriwtio cynhwysol, ac rydym bob amser yn adolygu'r rhain gyda'r bwriad o'u gwella. Mae tactegau a ychwanegwyd yn ddiweddar yn cynnwys rhoi sgôr i ymgeiswyr am eu potensial, gan fynnu ein bod yn profi pob panelwr am hunanymwybyddiaeth o duedd ddealedig, a chyf-weld â phob ymgeisydd sydd â nodweddion gwarchoddedig. Byddai gennym ddiddordeb mawr mewn dysgu pellach o ran y modd y gallem ddenu rhagor o ymgeiswyr, a galluogi rhagor o gyfleoedd ar gyfer unigolion o gymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb H: Mae gennym gynlluniau cyflogaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl ifanc o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a byddwn yn rhannu cyfleoedd ar gyfer swyddi yn y dyfodol â Romani Arts i helpu i annog ceisiadau gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **Recriwtio targededig**

Ateb I: Trwy gynnal ac adeiladu ar yr amrywiaeth o fentora a hyfforddiant a gynigir gennym, a helpu i feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth a pharch. **Natur agored oddefol**

Ateb L: Sicrhau bod unrhyw gyfleoedd/swyddi newydd yn yr oriel yn cyrraedd y cymunedau hyn, a bod yr iaith yn yr holl wybodaeth am y swyddi hyn yn gynhwysol. **Recriwtio targededig**

Sicrhau bod unrhyw gyfleoedd/swyddi newydd yn canolbwyntio ar sgiliau a phrofiadau bywyd perthnasol yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar gymwysterau.

Ateb LL: Cael ein tywys yn y cyfeiriad iawn ar gyfer cysylltu â phobl o'r cefndiroedd a nodir. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb M: Mae swyddi gwag yn cael eu harddangos yn eang, ac anogir pob rhan o'r gymuned i ymgeisio. Mae pob swydd yn gofyn am o leiaf Mathemateg a Saesneg ar lefel 2, ynghyd â datgeliad DBS llawn, a allai ddigalonni'r gymuned deithiol. **Natur agored oddefol**

Ateb N: Ni roddwyd ateb

Ateb O: Fel uchod, sgysiau uniongyrchol â phobl o'r gymuned. **Recriwtio targededig**

Ateb P: Trwy ddefnyddio strategaeth farchnata sy'n targedu'r cyfryngau/llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, a fydd yn fwy hygrych i ymarferwyr a chynulleidfaoedd ymhlith Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Trwy barhau i gydweithredu â sefydliadau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael. **Recriwtio targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb PH: Rydym yn agored i geisiadau o'n cymuned gyfan, ni waeth beth yw'r nodweddion penodol. **Natur agored oddefol**

Canfyddiadau

Nododd 11 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'u proses recriwtio, trwy **recriwtio targededig**.

Nododd pedwar o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'u proses recriwtio, trwy **geisio arweiniad a chymorth**.

Nododd pedwar o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'u proses recriwtio, trwy **cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd pedwar o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'u proses recriwtio, trwy gynnal **natur agored oddefol**.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'i broses recriwtio, trwy **ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'i broses recriwtio, trwy **feithrin ymwybyddiaeth, a sicrhau hyfforddiant ar hynny**.

Recriwtio targededig x 11

Ceisio arweiniad a chymorth x 4

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 4

Natur agored oddefol x 3

Ymchwil weithredol i gelfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr x 1

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny x 1

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Ateb 1: Mewn ymateb i'r Adroddiadau ar Ehangu Ymgysylltiad a'n Cynllun Gweithredu ar Ehangu Ymgysylltiad mewn partneriaeth â Cyngor Celfyddydau Cymru, rydym wedi newid ein prosesau recriwtio yn ddiweddar i bwysleisio pwysigrwydd profiad byw wrth gyflawni rolau. Mae hyn eisoes yn newid demograffeg ein gweithlu. Gellid hyrwyddo cyfleoedd o ran cyflogaeth a gwirfoddoli trwy berthnasoedd sy'n bodoli â chymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, a thrwy berthnasoedd newydd.

Recriwtio targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau

Ateb 2: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny. **Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny**

Ateb 3: Fel C2 – sefydlu cysylltiad â chymunedau SRT i feithrin ymwybyddiaeth o gyfleoedd. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb 4: Unwaith eto, mwy o gyhoeddusrwydd mewn deialog â'r Tîm Cydlyniant a'r Swyddog Addysg Teithwyr. Rhagor o ddigwyddiadau ar gyfer pobl ifanc o'r gymuned SRT, gan gyflwyno cyfleoedd i wirfoddoli a rolau yn -----.

Recriwtio targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau

Canfyddiadau

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'i broses recriwtio, trwy gynnal **natur agored oddefol**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'i broses recriwtio, trwy **geisio arweiniad a chymorth**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'i broses recriwtio, trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli ymhlith pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn rhan o'i broses recriwtio, trwy **feithrin ymwybyddiaeth, a sicrhau hyfforddiant ar hynny**.

Natur agored oddefol x 1

Ceisio arweiniad a chymorth x 1

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 1

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny x1

Llunio Rhaglenni

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 7: Pa ganran o ddigwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhaliwyd gan eich sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb A: Dim un

Ateb B: Bob blwyddyn, rydym yn cynnal gweithdai ochr yn ochr â'r arddangosfa a nodir uchod. Amcangyfrifwn fod hynny'n 6-8 gweithdy o tua 10-15 o bobl. **MD**

Ateb C: Dim un yn benodol. Ond unwaith eto, rydym yn agored i awgrymiadau, trafodaethau a syniadau.

Ateb: Gweler y nodiadau isod **MD**

Ateb D: Dim un

Ateb DD: Rydym wedi cynhyrchu dau gynhyrchiad theatr sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Teithiodd y ddau gynhyrchiad Ogledd Cymru, a chawsant groeso mawr. Cynhaliwyd y ddau gynhyrchiad dros bum mlynedd yn ôl. **MD**

Ateb E: 10%

Ateb F: 0%

Ateb FF: Mae pedwar wedi cael eu cynnal. Mae hyn yn cyfateb i tua **5%** o'n hallbwn cyhoeddus.

Ateb G: Mae hyn wedi amrywio dros y blynyddoedd, yn dibynnu ar argaeledd partneriaid i ddatblygu prosiectau yn ein hardal. Mae'r sefyllfa hon wedi gwella oddi ar haf 2021, ac rydym 'nawr yn cynnal tair sesiwn reolaidd ar draws dau safle yn yr ardal ac yn gobeithio gwella hyn. Dydw i ddim yn siŵr o ran cyfrifo hyn yn ganran o'n gwaith, ond mae yna ychydig o brosiectau sydd â sesiynau wythnosol rheolaidd fel hyn (mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn seiliedig ar brosiectau). **MD**

Ateb NG: 0%

Ateb H: Hyd yma, nid ydym wedi rhaglennu unrhyw ddigwyddiadau sy'n benodol gan neu ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **Dim un**

Ateb I: Dim un yn benodol – nid oes dim o'n gwaith yn gysylltiedig ag unrhyw grŵp diwylliannol, seiliedig ar hil neu ethnig penodol – yn hytrach, rydym yn ceisio dod â phobl ynghyd i rannu straeon.

Ateb L: 0%

Ateb LL: sero

Ateb M: Dim un

Ateb N: 3

Ateb O: Nid ydym yn rhaglennu; yn hytrach rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Fodd bynnag, mae gennym label recordiau, sy'n llwyfan ar gyfer gwaith – ac nid ydym wedi cynnwys unrhyw gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr hyd yma. **MD**

Ateb P: Tua **8%** – un arddangosfa ar-lein yn ein horiel rithwir yn ----- a'r arddangosfa bresennol a fydd yn para am gyfnod o ddeufis.

Ateb PH: Nid oes unrhyw un wedi cysylltu â ni i arwain digwyddiadau penodol. **Dim un**

Canfyddiadau

Nododd 11 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan eu sefydliadau yn y pum mlynedd ddiwethaf yn ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd pump o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu canran ar gyfer y digwyddiadau a gynhaliwyd gan y sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf ac a oedd yn ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 10% o'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan ei sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf yn ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 8% o'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan ei sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf yn ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 5% o'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan ei sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf yn ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 3% o'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan ei sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf yn ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

0% x 11

MD (methu darparu) x 5

10% x 1

8% x 1

5% x 1

3% x 1

Cyfartaledd $10\% + 8\% + 5\% + 3\% \div 4 = 6.5\%$

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 7: Pa ganran o ddigwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a gynhaliwyd gan eich sefydliad yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb 1: Cafodd dau ddigwyddiad blynyddol eu datblygu a'u cyflwyno gyda phartneriaid cymunedol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Romani. Cafodd y rhaglen digwyddiadau byw ei hatal am ddwy flynedd a hanner oherwydd y pandemig. **MD**

Ateb 2: Dim un

Ateb 3: Dim un, ond rydym wedi bod ynghau am ddwy flynedd o'r cyfnod hwnnw.

Ateb 4: Un arddangosfa mewn oriel, un prosiect gyda menywod ifanc (tra ein bod oddi ar y safle, gyda'r bardd Sophie McKeand), un prosiect ar gyfer plant gyda'r Tîm Cydlyniant. **MD**

Canfyddiadau

Nododd tri o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan eu sefydliadau yn y pum mlynedd ddiwethaf yn ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd dau o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu canran ar gyfer y digwyddiadau a gynhaliwyd gan y sefydliadau yn y pum mlynedd ddiwethaf ac a oedd yn berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

0% x 2

Methu darparu x 2

Cyfartaledd = 0%

Llunio Rhaglenni

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 8: Sut y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?

Ateb A: Sicrhau bod cyfleoedd penodol ar gael i artistiaid/berfformwyr/ymarferwyr. Byddem yn elwa o gael cymorth ynghylch sut i ymgysylltu mewn ffordd effeithiol. **Cyfleoedd targededig. Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb B: Rydym yn cynnal digwyddiadau, gan weithio gyda sefydliadau megis Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, ac rydym yn gobeithio bod y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu mwynhau ac yn teimlo bod croeso iddynt yno. Mae hyn wedi cynnwys gweithdai, gweithgareddau crefft a thocynnau i'n profiad Wonderland. Rydym yn ymdrechu i wneud Y ----- yn lle croesawgar i bawb, ac yn ceisio creu profiadau a fydd yn croesawu pawb. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb C: Trwy gwrdd a siarad. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb CH: Cynhelir ein prif arddangosfa yn ddwyflynyddol, ac mae iddi ffocws rhyngwladol. Er bod pob rhifyn ers ei sefydlu yn 2002 wedi canolbwyntio'n bennaf ar waith artistiaid o blith y Mwyafrifoedd Byd-eang, hyd yn hyn nid enwebwyd unrhyw artistiaid sy'n nodi eu bod yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, ac felly nid yw ein gwaith wedi cynnwys y cymunedau hynny, fel y cyfryw, y tu hwnt i'r wybodaeth anhysbys nad yw wedi ei chofnodi. Fodd bynnag, byddai gwneud hynny yn naturiol yn rhan o'n mandad a'n ffocws cynyddol ar y mater ehangach o gynrychiolaeth a gweithio gydag unigolion a chymunedau o hunaniaeth, tras a chefnidir Brodorol – rhywbeth sy'n amlwg iawn yn ein gwaith presennol tuag at AM10 ym mis Hydref 2023. Yn y byd celf rhyngwladol, cynhaliwyd cyfres o arddangosfeydd yn ddiweddar, gan gynnwys yn y Ganolfan Ymchwil Ewropeaidd, o waith artistiaid sy'n nodi mai dyma eu cefndir diwylliannol; ac yn y Biennale di Venezia gyfredol, mae yna artist Roma yn y Pafiliwn Pwylaidd, Malgorzata Mirga-Tas. O ganlyniad, ni fyddai'n annisgwyl gweld artistiaid sy'n cynrychioli cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dechrau cael eu henwebu mewn rhifynnau yn y dyfodol. Ochr yn ochr â'n harddangosfa ddwyflynyddol, mae rhaglennu cyhoeddus a phartneriaethau cymunedol cyd-greadigol yn ffurfio dilyniant helaeth o waith sy'n archwilio'r themâu, y materion a'r amodau sy'n bresennol yn y cymunedau hynny ac yn rhan ohonynt, yn ogystal â chydweithio â'r cymunedau hynny i fynd i'r afael â chynrychiolaeth a meithrin perthnasoedd creadigol, hirdymor dibynadwy. Byddai unrhyw ffrydiau ariannu penodol i gefnogi gwaith diwylliannol-benodol o'r fath, megis yr hyn sydd ar gael i artistiaid ac ymarferwyr â nodweddion gwarchoddedig eraill, yn galluogi perthnasoedd a gwaith partneriaeth ystyrlon o'r fath i esblygu ymhellach. **Natur agored oddefol**

Ateb D: Dim ond digwyddiadau a gyflwynir gan ein sefydliad, neu mewn partneriaeth â'n sefydliad, yr ydym yn eu cynnal yn gyffredinol, oherwydd y math o leoliad, adnoddau, a chapasiti yn ein sefydliad. Ond mae gennym awydd cryf i agor ein gofod yn ehangach, ac rydym yn cynnal digwyddiad y Rhaglen Gypsy Maker 5 ym mis Medi. Ar gyfer hyn, rydym am i'r gofod deimlo'n agored, yn groesawgar ac yn ddiogel. Trwy wneud hynny, gobeithiwn annog rhagor o ddigwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ein lleoliad. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb DD: Unwaith eto, trwy ymgysylltu a hefyd trwy sicrhau bod gwaith sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael ei nodi'n glir a'i gofnodi yn ein Cynllun Cydraddoldeb a'n Rhaglen Artistig. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Cyfleoedd targededig**

Ateb E: Rydym wedi dechrau ymgysylltu â'r safle Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym Merthyr Tudful i ddatblygu prosiectau ar y cyd – mae angen i ni barhau â'r gwaith hwn a chynyddu ein rhyngweithiad yn y cam datblygu prosiectau, ynghyd â gweithio gyda safleoedd eraill ledled Cymru. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb F: Rhaglennu mwy uniongyrchol. **Llunio rhaglenni targededig**

Ateb FF: Gweithio'n agosach gyda phrosiect Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, a thrwy gysylltiadau â'r staff, ynghyd â datblygiad curadurol. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb G: Mae dyraniad penodol o'n cronfeydd wedi'i neilltuo i ddatblygu'r gwaith hwn, ac rydym hefyd wedi cynnwys gwaith gyda chymunedau SRT yn ein ceisiadau am gyllid. **Cyllid targededig**

Ateb NG: Yn debyg i'r ateb a roddwyd i Gwestiwn 2, mae angen i ni weithio mewn modd creadigol gyda'r cymunedau hyn, ac yn benodol gydag artistiaid, i greu theatr sy'n archwilio diwylliant Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb H: Fel isod, gallai dealltwriaeth bellach o'r modd y byddai cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr am ymgysylltu, efallai trwy hyfforddiant pellach, ganiatáu i ni gynnal digwyddiadau mwy perthnasol. **Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny**

Ateb I: Efallai trwy weithio gyda'n cymuned teithwyr leol i greu elfennau o'r rhaglen ar y cyd. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb L: Trwy brosiectau a rhaglenni ymgysylltu targededig (gweler cwestiwn 1), gall digwyddiadau gael eu dyfeisio a'u gwreiddu yn rhan o'n rhaglen Dysgu ac Arddangosfeydd. **Llunio rhaglenni targededig**

Ateb LL: Gweler C4. **Natur agored oddefol**

Ateb M: Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, bu yna ddigwyddiadau yn y coleg rhwng myfyrwyr, sydd wedi arwain at rai o bobl y gymuned teithwyr yn cael eu gwahardd o'r safle.

Ateb N: Wrth lunio rhaglenni, rydym weithiau'n rhaglennu theatr neu gerddoriaeth sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Nid ydym yn edrych yn benodol – ac nid ydym yn gweld digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr; nid yw ein cynllun cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cyfeirio'n benodol at bobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **Natur agored oddefol**

Ateb O: Gweler Cwestiwn 1 – mae angen i ni ymgysylltu â'r artistiaid yn y gymuned Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb P: Trwy barhau i ymgysylltu â sefydliadau megis Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, a pharhau i drafod. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb PH: Ni roddwyd ateb

Canfyddiadau

Nododd 10 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu sefydliad trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu sefydliad trwy gynnal **natur agored oddefol**.

Nododd dau o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu sefydliad trwy **gyfleoedd targededig**.

Nododd dau o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu sefydliad trwy **lunio rhaglenni targededig**.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ei sefydliad trwy **gyllid targededig**.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ei sefydliad trwy **geisio arweiniad a chymorth**.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ei sefydliad trwy **feithrin ymwybyddiaeth, a sicrhau hyfforddiant ar hynny.**

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 10

Natur agored oddefol x 3

Cyfleoedd targededig x 2

Llunio rhaglenni targededig x 2

Cyllid targededig x 1

Ceisio arweiniad a chymorth x 1

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny x 1

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Ateb 1: Yn ogystal â'r wybodaeth a amlinellir uchod, adeiladu ar berthnasoedd presennol a meithrin rhai newydd â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb 2: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny. **Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny**

Ateb 3: Fel C2. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau. Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb 4: Rhagor o waith partneriaeth â'r Tîm Cydlyniant a chyd-weithwyr megis Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Canfyddiadau

Nododd tri o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu sefydliad trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau.**

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn ei sefydliad trwy **geisio arweiniad a chymorth.**

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid cynyddu nifer y digwyddiadau perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ei sefydliad trwy **feithrin ymwybyddiaeth, a sicrhau hyfforddiant ar hynny.**

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 3

Ceisio arweiniad a chymorth x 1

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny x 1

Y Gyllideb

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 9: Pa ganran o'ch cyllideb a wariwyd ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb A: Dim un

Ateb B: Mae'r tîm yn gweithio i ddarparu gofod a chymorth materol yn gyfnewid, gan weithio gydag Isaac a Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani i gefnogi gweithgareddau. Roeddem hefyd wedi ariannu gweithdai eleni. **MD**

Ateb C: Dim un yn benodol.

Ateb CH: Gweler y nodiadau isod. **MD**

Ateb D: 0

Ateb DD: 0%

Ateb E: 5%

Ateb F: amh. **MD**

Ateb FF: Llai na 10% yn gyffredinol o'n cyllideb ar gyfer llunio rhaglenni. **MD**

Ateb G: Canran ddibwys hyd at y flwyddyn ariannol ddiwethaf; rwy'n dyfalu tua 12% o'n cyllideb prosiectau ar gyfer 2021-22. Nid wyf wedi cynnwys amser staff yn y cyfrifiad hwn. Ar hyn o bryd, mae'n siŵr ein bod yn neilltuo mwy o amser staff i'r llinyn gwaith hwn nag i unrhyw brosiectau cyfredol eraill (o leiaf 10 awr yr wythnos). **MD**

Ateb NG: 0%

Ateb H: Rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn amrywiaeth a chydaddoldeb. Mae hyn yn cynnwys cynnull tri Thasglu Amrywiaeth a gynlluniwyd i archwilio'r modd y gall anabledd, ethnigrwydd a chefnidir economaidd-gymdeithasol greu rhwystrau i bobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau ar lefel uchel. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r prosiectau hyn hyd yma wedi canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i gymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **MD**

Ateb I: Gweler uchod **MD**

Ateb L: 0%

Ateb LL: sero

Ateb M: Mae yna fynediad agored i'n digwyddiadau; nid ydym yn clyweld ar gyfer ein grwpiau cymunedol, ac rydym yn croesawu cyfranogwyr o bob rhan o'n cymunedau. Nid yw'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi cael ei thargedu'n benodol. **MD**

Ateb N: 0.01%

Ateb O: sero

Ateb P: Mae yna gynifer o agweddau ar bortffolio cyllido ----- am ei fod yn sefydliad datblygu cymunedol yn ogystal â sefydliad celfyddydol. Rydym wedi darparu cymorth yn gyfnewid o ran llogi'r galeri am y cyfnod o ddeufis am £4,000, gan hefyd dalu am gost y lansiad wrth agor yr arddangosfa. **MD**

Ateb PH: Nid ydym yn dosrannu'r gyllideb yn seiliedig ar nodweddion penodol. **MD**

Canfyddiadau

Nododd 10 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu ffigur ar gyfer y ganran o'u cyllideb a wariwyd yn eu sefydliad ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd wyth o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'u cyllideb wedi cael ei wario ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 5% o'i gyllideb wedi cael ei wario ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0.01% o'i gyllideb wedi cael ei wario ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

MD (methu darparu) x 10

0% x 8

5% x 1

0.01% x 1

Cyfartaledd $5\% + 0.01\% \div 2 = 2.5\%$

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 9: Pa ganran o'ch cyllideb a wariwyd ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf?

Ateb 1: Nid ydym yn sefydliad sy'n rhoi grantiau. Mae 80% o'n cyllideb yn cael ei wario ar gostau staff, ac mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb sy'n weddill yn cael ei gwario ar sicrhau gweithrediad ein hamgueddfeydd i ddarparu mynediad am ddim i'r cyhoedd i saith amgueddfa genedlaethol ledled Cymru. **MD**

Ateb 2: Dim un

Ateb 3: Dim un

Ateb 4: Nid oes gennyf yr wybodaeth ar ffurf canran, ond tua £3,000 mewn perthynas ag arddangosfa yn 2018. **MD**

Canfyddiadau

Nododd tri o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu ffigur ar gyfer y ganran o'u cyllideb a wariwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf yn eu sefydliad ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Nododd dau o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'u cyllideb wedi cael ei wario ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y pum mlynedd ddiwethaf.

MD (methu darparu) x 2

0% x 2

Cyfartaledd = 0%

Y Gyllideb

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 10: Beth a allai annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?

Ateb A: Cymorth ynghylch sut a lle i ddefnyddio'r cyllidebau sydd ar gael orau ar gyfer ymgysylltu.

Ceisio arweiniad a chymorth

Ateb B: Wrth i'n perthynas â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr ddatblygu, rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu darparu rhagor o gyfleoedd a digwyddiadau a fydd yn arwain at fwy o bresenoldeb o aelodau'r gymuned hon. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb C: Trafodaeth. Does dim pwynt i ni neilltuo cyllideb os na ellir ei gwario. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb CH: Mae hyn yn gysylltiedig â'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r ateb i C8 uchod. Wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg, yna byddai gwariant cyllidebol yn dod ar gael yn y ffordd fwyaf syml i ddatblygu gwaith ac iddo gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, a hynny yn y ffordd yr ydym yn ymgysylltu ar hyn o bryd ag artistiaid a chymunedau o blith amrywiaeth o unigolion o gefndir Brodorol a'r Mwyafrif Byd-eang. Byddai hyn yn adlewyrchu dyheadau, safbwyntiau byd-eang, gwerthoedd a systemau eraill sy'n ddiwylliannol benodol ac eto'n cysylltu ag eraill ledled y byd, gan herio disgwyliaid a chamddealltwriaeth, a chwalu syniadau a phroblemau megis y rhai sy'n ymwneud â hunaniaeth, cenedligrwydd a pherthyn. **Natur agored oddefol**

Ateb D: Trwy gynnal Gypsy Maker 5 ym mis Medi, bydd yr ateb hwn yn newid. Wrth i ni ddysgu rhagor, mae ein dealltwriaeth yn cynyddu ynghylch y modd y gallwn ymgysylltu'n well â chymunedau SRT, ac rydym yn meithrin partneriaethau i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn y ffordd iawn. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau. Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb DD: Mae'r gyllideb yn adlewyrchu'r rhaglen artistig, felly dylai fod gan y rhaglen artistig dargedau clir i ymgysylltu â'r gymuned hon. **Llunio rhaglenni targededig**

Ateb E: Mae angen i ni ddatblygu rhagor o brosiectau gyda'r cymunedau hyn ac felly gynyddu'r gwariant. Llunio rhaglenni targededig

Ateb F: Archwilio ein defnydd o adnoddau.

Ateb FF: Dulliau codi arian targededig, neilltuo arian yn benodol ar gyfer y maes datblygu hwn. **Dulliau codi arian targededig**

Ateb G: Ceisiadau llwyddiannus am gyllid, yn ogystal â'r dyraniad o'n cyllideb ein hunain. **Dulliau codi arian targededig**

Ateb NG: Byddai'n wych i'n Tîm Datblygu Creadigol weithio gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma neu Deithwyr i archwilio cyfleoedd ar gyfer comisiynau artistig yn y dyfodol. Gallai NTW hwyluso hyn er mwyn i'r sector ehangach ymgysylltu hefyd, os oes yna awydd yn y cymunedau. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Dulliau codi arian targededig**

Ateb H: Fel isod, rydym yn agored i syniadau ac awgrymiadau ynghylch y ffordd orau i wario ein cyllideb i ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb I: Caiff y gyllideb ei llywio gan y rhaglen – ac felly byddai datblygu elfennau mwy penodol ar gyfer y rhaglen yn arwain yn naturiol at gynydd yn y gwariant. **Llunio rhaglenni targededig**

Ateb L: Sicrhau bod grantiau penodol ar gael ym maes Dysgu i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu dan arweiniad artistiaid. **Dulliau codi arian targededig**

Ateb LL: Gweler C4. **Natur agored oddefol**

Ateb M: Rydym am barhau'n agored ac yn groesawgar i'n holl gymunedau ac felly'n bwriadu parhau â'r polisi mynediad agored. **Natur agored oddefol**

Ateb N: Angen lleol. **Natur agored oddefol**

Ateb O: Unwaith eto, gweithio gydag artistiaid trwy ein gwaith datblygu artistiaid neu ar label y record. **Natur agored oddefol**

Ateb P: Rhagor o gyfleoedd cyllido, mwy o gydweithredu, addysg bellach a chysylltiadau lleol. **Dulliau codi arian targededig. Trwy gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb PH: Ni roddwyd ateb

Canfyddiadau

Nododd pump o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu deithwyr yn eu sefydliad trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau.**

Nododd pump o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eu sefydliad trwy gynnal **natur agored oddefol.**

Nododd pedwar o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eu sefydliad trwy **ddulliau codi arian targededig.**

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eu sefydliad trwy **lunio rhaglenni targededig.**

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eu sefydliad trwy **geisio arweiniad a chymorth**

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 5

Natur agored oddefol x 5

Dulliau codi arian targededig x 4

Llunio rhaglenni targededig x 3

Ceisio arweiniad a chymorth x 3

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 10: Beth a allai annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eich sefydliad?

Ateb 1: Gweithio'n agosach gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr newydd a rhai sy'n bodoli eisoes i lunio ceisiadau am gyllid mewn partneriaethau. Gweithio'n agosach gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr newydd a rhai sy'n bodoli eisoes i ddatblygu'r casgliadau a'r deongliadau. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Dulliau codi arian targededig**

Ateb 2: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny. **Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny**

Ateb 3: Meithrin cysylltiadau, deialog, fel C2. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb 4: Mwy o gyfleoedd i raglennu cynnwys sy'n berthnasol i SRT, ynghyd â'r gwariant cysylltiedig.
Llunio rhaglenni targededig

Canfyddiadau

Nododd dau o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eu sefydliad trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y sefydliad trwy **ddulliau codi arian targededig**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y sefydliad trwy **lunio rhaglenni targededig**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yng nghanran y gyllideb a warir ar gynnwys sy'n berthnasol i Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn y sefydliad trwy **feithrin ymwybyddiaeth, a sicrhau hyfforddiant ar hynny**

Trwy gynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 2

Dulliau codi arian targededig x 1

Llunio rhaglenni targededig x 1

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny x 1

Hyfforddiant a Chymorth

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 11: Pa ganran o'ch cyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf a wariwyd ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?

Ateb A: Dim un

Ateb B: Nid ydym yn casglu data penodol i'n galluogi i adrodd am hyn. **MD**

Ateb C: Dim un yn benodol.

Ateb CH: Gweler y nodiadau isod **MD**

Ateb D: Dim un

Ateb DD: Mae canran sylweddol o'n cyllideb hyfforddi yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf wedi canolbwyntio ar gydraddoldeb. Er nad ydym wedi cymryd rhan mewn digwyddiad hyfforddi penodol yn ymwneud â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mae hyn yn bendant wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant cydraddoldeb a ddarparwyd. **MD**

Ateb E: 3%. Roeddem wedi targedu rhywfaint o hyfforddiant at gynyddu amrywiaeth yn ein hyfforddiant, gan gynnwys y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Ateb F: 0.5%

Ateb FF: Nid ydym wedi diwallu'r angen hwn yn ffurfiol, ar wahân i sicrhau bod ymwybyddiaeth ehangach yn cael ei chynnwys yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol a bod gan y llyfrgell stoc o ddeunydd darllen sy'n annog mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. **MD**

Ateb G: Tîm bach o staff sydd gennym, ac ar hyn o bryd dim ond un person sydd heb gael hyfforddiant ar weithio gyda chymunedau SRT. **MD**

Ateb NG: 0.5%

Ateb H: Er ein bod wedi buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddi staff ar amrywiaeth a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, nid ydym wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol yn ymwneud ag ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **Dim un**

Ateb I: Mae ein cyllidebau hyfforddi yn cael eu gwario ar ddatblygu a chryfhau naill ai sgiliau craidd sy'n ymwneud â'r syrcau, neu sgiliau sy'n ymwneud â chyd-greu, datblygu cymunedol, ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth. Felly, ar un lefel, mae tua 50% o gyfanswm y gyllideb yn berthnasol i hyn, ond, yn yr un modd, nid oes **dim** wedi'i dargedu'n benodol at hyn.

Ateb L: 0%

Ateb LL: sero

Ateb M: Rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddi staff a gwirfoddolwyr; fodd bynnag, hyd y gwn i, nid ydym wedi recriwtio unrhyw staff na gwirfoddolwyr o'r gymuned Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. **MD**

Ateb N: 0.5%

Ateb O: sero

Ateb P: Dim hyfforddiant ffurfiol, ond mae hyn yn rhywbeth y mae gennym ddiddordeb yn ei ddatblygu. **Dim un**

Ateb PH: Er bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar-lein yn y maes hwn, nid ydym wedi gwario unrhyw gyllideb yn y maes. **Dim un**

Canfyddiadau

Nododd 10 o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'u cyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi cael ei wario ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Nododd chwech o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn gallu darparu ffigur ar gyfer y ganran o'u cyllideb a wariwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 0.5% o'u cyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi cael ei wario ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Nododd un o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur fod 3% o'i gyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi cael ei wario ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

$0\% \times 10$

MD (methu darparu) $\times 6$

$0.5\% \times 3$

$3\% \times 1$

Cyfartaledd $0.5\% + 0.5\% + 0.5\% + 3\% \div 4 = 1.25\%$

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Cwestiwn 11: Pa ganran o'ch cyllideb yn y pum mlynedd ddiwethaf a wariwyd ar hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr?

Ateb 1: Ni neilltuwyd unrhyw gyllideb benodol i'r uchod yn y pum mlynedd ddiwethaf. **Dim un**

Ateb 2: Dim un

Ateb 3: Dim un

Ateb 4: Dim un

Canfyddiadau

Nododd pedwar o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur fod 0% o'u cyllideb wedi cael ei wario yn y pum mlynedd ddiwethaf ar hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

$0\% \times 3$

Cyfartaledd = 0%

Hyfforddiant a Chymorth

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 12: Sut y gellid cynyddu argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eich staff a'ch gwirfoddolwyr?

Ateb A: Gallem gyflwyno hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr pe byddem yn cael gwybod am gwrs/weithdy priodol a defnyddiol. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb B: Unwaith eto, wrth i ni weithio fwy a mwy gyda'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, disgwylir y bydd ein cymorth cysylltiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr hefyd yn cynyddu, ac rydym yn awyddus i weithio gyda'r gymuned ei hun i gefnogi hyn. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb C: Trwy gwrdd a chydweithredu'n agored. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb CH: Mae gennym gyllideb flynyddol ar gyfer unrhyw fath o gymorth i staff mewn perthynas â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cwmpasu materion megis rhagfarn ddarwybod, materion iechyd a llesiant, datblygiad proffesiynol unigolion, ac ati. Rydym yn agored i gymryd rhan mewn unrhyw fentrau hyfforddi, cael gwybodaeth am ymchwil benodol, a chwilio am ffyrdd i weithredu argymhellion o unrhyw adroddiadau ymchwil a luniwyd, ac ati, er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith hwn gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **Natur agored oddefol**

Ateb D: Trwy feithrin partneriaethau a deall y llwybrau hyfforddi sydd ar gael. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb DD: Mae'n rhaid i ni barhau i sicrhau bod hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn cael eu cynnwys yn ein cynlluniau hyfforddi. **Hyfforddiant targededig**

Ateb E: Trwy well ymgysylltiad. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb F: Rhagor o gymorth uniongyrchol a hefyd gofyn iddynt arwain hyfforddiant. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb FF: Hyfforddiant targededig. **Hyfforddiant targededig**

Ateb G: Byddem yn bendant yn ystyried hyn wrth benodi staff newydd. **Natur agored oddefol**

Ateb NG: Byddem yn cynnig hyn yn awtomatig cyn gynted ag y byddai nifer y staff a gwirfoddolwyr o'r cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn cynyddu. Byddai'r cynnig yn bwrpasol i'w hanghenion a'u rolau. **Natur agored oddefol**

Ateb H: Rydym yn agored i awgrymiadau ar gyfer hyfforddiant staff priodol gan y byddai hyn yn helpu i gynyddu ein dealltwriaeth a sicrhau bod gwaith ein sefydliad yn fwy perthnasol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. **Natur agored oddefol**

Ateb I: Pe byddem yn newid natur y rhaglen ac yn sicrhau ei bod yn fwy diwylliannol-benodol. **Natur agored oddefol**

Ateb L: Hyfforddiant penodol yn yr oriel. Mynediad at grantiau ac arbenigwyr yn y maes penodol hwn. **Hyfforddiant targededig. Dulliau codi arian targededig. Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb LL: Gweler C6. **Ceisio arweiniad a chymorth**

Ateb M: Pe byddem yn recriwtio o'r gymuned, byddent yn cael eu cynnwys yn y ddarpariaeth bresennol. **Natur agored oddefol**

Ateb N: Wrth i ni chwilio am gyllid i ailddechrau ar hyfforddi artistiaid a dychwelyd ein gweithgarwch celfyddydol i'r lefelau cyn COVID, rydym yn manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt ddod ar gael; nid oes gennym y capasiti i fuddsoddi mewn meysydd nad ydynt yn ein cynlluniau presennol. **Natur agored oddefol**

Ateb O: Ni roddwyd ateb

Ateb P: Rhagor o arian a pharhau â'n perthynas â sefydliadau megis RCAC. **Dulliau codi arian targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb PH: Ni roddwyd ateb

Canfyddiadau

Nododd saith o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid annog cynnydd yn argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eu staff a'u gwirfoddolwyr trwy gynnal **natur agored oddefol**.

Nododd pedwar o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid annog cynnydd yn argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eu staff a'u gwirfoddolwyr trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid annog cynnydd yn argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eu staff a'u gwirfoddolwyr trwy **geisio arweiniad a chymorth**.

Nododd tri o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid annog cynnydd yn argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eu staff a'u gwirfoddolwyr trwy **hyfforddiant targededig**.

Nododd dau o sefydliadau PCC a ymatebodd i'n holiadur y gellid annog cynnydd yn argaeledd hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer eu staff a'u gwirfoddolwyr trwy **ddulliau codi arian targededig**.

Natur agored oddefol x 7

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 4

Ceisio arweiniad a chymorth x 3

Hyfforddiant targededig x 3

Dulliau codi arian targededig x 2

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Ateb 1: Gweithio'n agosach gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr syn bodoli a rhai newydd. Ceisiadau am gyllid yn cael eu llunio mewn partneriaethau. Mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sydd ar gael. Cynnwys adran yn ein Hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau Dulliau codi arian targededig**

Ateb 2: Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny. **Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny**

Ateb 3: Cyrchu darpariaeth a'i chysylltu â'r broses o feithrin cysylltiadau, deialog. **Dulliau codi arian targededig. Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Ateb 4: Trwy weithio mewn partneriaeth ledled yr awdurdod lleol. **Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau**

Canfyddiadau

Nododd tri o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yn yr hyfforddiant a'r cymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr sydd ar gael i'w staff a'u gwirfoddolwyr trwy **gynyddu ymgysylltiad â chymunedau**.

Nododd dau o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yn yr hyfforddiant a'r cymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac sydd ar gael i'w staff a'u gwirfoddolwyr trwy **ddulliau codi arian targededig**.

Nododd un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n holiadur y gellid, o bosibl, annog cynnydd yn yr hyfforddiant a'r cymorth sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac sydd ar gael i'w staff a'i wirfoddolwyr trwy **feithrin ymwybyddiaeth, a sicrhau hyfforddiant ar hynny**.

Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau x 3

Dulliau codi arian targededig x 2

Meithrin ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ar hynny x 1

Gwybodaeth Ategol

Cleientiaid PCC

Cwestiwn 13: Mae croeso i chi ychwanegu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn ddefnyddiol yn eich barn chi.

Ateb A: Nid oes yr un safle teithwyr yn ein hardal ac ni fu hyn yn darged allweddol i ni yn hanesyddol, ond gallai hynny ddeillio o ddiffyg dealltwriaeth/ymwybyddiaeth ar ein rhan ni, yn hytrach na realiti. Byddem wir yn gwerthfawrogi unrhyw help sydd ar gael.

Ateb B: Ni roddwyd ateb

Ateb C: Beth amser yn ôl, roeddem wedi creu drama i blant yn seiliedig ar *Y Sipsiwn Cymreig* gan A.O.H. Jarman ac Eldra Jarman; byddai'n gyffrous gwneud rhywbeth tebyg a chyfoes. Cysylltwch â ni!

Ateb CH: Gan gyfeirio at gwestiynau 1, 3, 5, 7, 9, 11 uchod, cyn AM9 nid oedd y categori 'Sipsi, Roma, Teithiwr' yn rhan o unrhyw arolwg a gynhaliwyd naill ai o fewn dogfennau a gynhyrchwyd gan ein sefydliad neu wrth ddefnyddio'r rhai a ddarparwyd yn rhan o gytundebau ariannu â rhanddeiliaid a chefnogwyr amrywiol. Gan hynny, nid yw'r ystadegau hyd at 2020-21 yn hysbys. Yn achos arolygon a gynhaliwyd yn rhan o AM9 yn 2021, roedd y dras ddiwylliannol hon yn rhan o holiaduron ac arolygon ar y ffurf 'Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig' ac fel y nodwyd â nodweddion gwarchoddedig gan CCC. Er bod nifer yr arolygon yr oeddem yn gallu eu cynnal wedi'u cwtdogi'n ddifrifol gan y pandemig, o blith y rhai a gynhaliwyd ni fu i unrhyw un ymhlith y cynulleidfaoedd, yr artistiaid na'r aelodau staff hunanuniaethu yn y modd hwn. Yn yr un modd, 'dim un' oedd y canlyniad yn achos digwyddiadau, y gyllideb neu hyfforddiant ar gyfer y cyfnod hwn, gyda'r ffocws yn cael ei roi ar gynrychiolaeth a materion yn ymwneud â'r artistiaid hynny y buom yn gweithio gyda nhw, ac ar nodi cynulleidfaoedd o fewn y syniadau, y themâu a'r materion hynny.

Ateb D: Ni roddwyd ateb

Ateb DD: Ni roddwyd ateb

Ateb E: Rydym bob amser yn ceisio gwella ein gwaith gyda grwpiau ymylol a difreintiedig ledled Cymru, ac yn cydnabod bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymhlith rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru – felly rydym yn awyddus i adeiladu ar y camau yr ydym wedi'u cymryd o ran ymgysylltu, ac i wella ein gwaith yn y maes hwn.

Ateb F: Ni roddwyd ateb

Ateb FF: Ni roddwyd ateb

Ateb G: Ni roddwyd ateb

Ateb NG: Ni roddwyd ateb

Ateb H: Ni roddwyd ateb

Ateb I: Ni roddwyd ateb

Ateb L: Ni roddwyd ateb

Ateb LL: Ni roddwyd ateb

Ateb M: Mae gennym gymuned fawr o deithwyr wedi'i lleoli lai na 15 milltir o'r theatr. Yn anffodus, mae'r gymuned hon wedi ennill enw drwg am drais a masnachu cyffuriau. Mae nifer sylweddol o'r gymuned hon wedi cael eu dedfrydu i garchar am droseddau'n ymwneud â chyffuriau a dwyn (tua 20 o bobl), ac mae nifer mawr ohonynt wedi cael gorchmynion cymunedol am gefnogi'r gweithgarwch anghyfreithlon. Pan aeth y nyrsys cymunedol i'r safle i frechu rhag COVID-19, roedd yna wrthwynebiad, a bu goruchwyliaeth yr heddlu yn ofynnol am y diwrnod. Mae nifer o'n cwsmeriaid yn teimlo dan fygythiad gan gymuned y teithwyr am ei bod yn parhau i achosi trwbl yn y dref. Ar yr adegau pan geisiodd y coleg ymgysylltu â'r gymuned trwy addysg, cafwyd achosion o drais, a

arweiniodd at fyfyrwyr eraill yn cael eu derbyn i'r ysbyty a faniau'n llawn o deithwyr hŷn yn dod i ddial. Erbyn hyn, mae nifer mawr ohonynt wedi cael eu gwahardd o safleoedd y coleg.

Ateb N: Roeddem wedi defnyddio Mess Up The Mess i ddarparu hyfforddiant i'n Staff a'n Tîm o Artistiaid Cymunedol yn 2018-19; roedd un elfen o'r hyfforddiant hwnnw yn ymwneud yn benodol â chynnwys pobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Rydym yn cefnogi artistiaid i gynyddu eu sgiliau ar gyfer ein cymuned, yn ogystal â gwella eu sgiliau i gynyddu eu siawns o gael cyflogaeth yn rhywle arall.

Mae dau o'n tîm Artistiaid Cymunedol wedi bod yn ymwneud â phrosiectau celfyddydau cyfranogol yn rhan isaf Cwm Tawe gyda chymunedau Sipsiwn Teithwyr Romani neu unigolion o'r cymunedau hynny (rwy'n cofio Viv Rhule yn gweithio ar brosiect Varda gydag Amgueddfa Abertawe?). Mae gennym rai sgiliau yn ein tîm, ond nid oes yr un sefydliad a oedd yn anelu at gefnogi Sipsiwn, Roma neu Deithwyr erioed wedi cysylltu â ni.

Ateb O: Ni roddwyd ateb

Ateb P: Ni roddwyd ateb

Ateb PH: Ni roddwyd ateb

Canfyddiadau

Roedd chwech o'r sefydliadau PCC a ymatebodd i'n hastudiaeth wedi rhoi gwybodaeth a awgrymai bod eu bwriad yn amrywio o geisio arweiniad a chymorth pellach, i fynd ati i geisio cyfleoedd i gydweithredu i gynyddu ymgysylltiad â chymunedau a sefydliadau yn y gymuned.

Roedd natur agored oddefol hefyd yn amlwg, ynghyd â'r holiadur yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i gyfleu gwybodaeth am restr o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol a oedd wedi digwydd, ac nad oeddent â chysylltiad uniongyrchol â'r sefydliad a oedd yn adrodd.

Cleientiaid nad ydynt yn rhan o PCC

Ateb 1: Ni roddwyd ateb

Ateb 2: Ni roddwyd ateb

Ateb 3: Ni roddwyd ateb

Ateb 4: Ni roddwyd ateb

Canfyddiadau

Nid oedd yr un o'r sefydliadau nad ydynt yn rhan o PCC ac a ymatebodd i'n hastudiaeth wedi llenwi'r adran hon.